# ECO'R WYDDFA

**RHIF 84** **MEDI 1983** **Pris 20c**

# PERYGLON Y PAPUR GWYN

**Wrth annerch Cymdeithas Cysylltiadau Cyhoeddus Cymru ar ddydd Gwener yr Eisteddfod Genedlaethol, cyfeiriodd Mr Ioan Bowen Rees, Prif Weithredwr Gwynedd, at Baput Gwyn y Llywodraeth ar Drethi. "Os derbynnir argymhellion y Papur Gwyn," ebe Mr Rees, "bydd llywodraeth leol yn colli pob arlliw o ryddid ariannol ac o ganlyniad y mae hwn yn Bapur Du o safbwynt yr iaith Gymraeg. Yn wir, os derbynnir y Papur Gwyn bydd yn rhaid i lywodraeth leol ei chyfyngu ei hun fwy-fwy i'w dyletswyddau statudol. Bydd yn llawer mwy anodd darganfod arian ar gyfer:**

1. Yr Eisteddfod Genedlaethol – cyfrannodd Cyngor Sir Gwynedd £60,000 at Eisteddfod Ynys Môn a chyfrannodd Cyngor Bwrdeistref Ynys Môn £66,000. Yn ôl yr Ysgrifennydd Gwladol, Mr Nicholas Edwards, fodd bynnag, y mae Gwynedd yn awdurdod "afradlon ac anghyfrifol" am fod ei gwariant 1½% yn uwch na nod y Llywodraeth, a chosbwyd Gwynedd rhyw £¾ miliwn – collwyd y swm yma nid yn unig i Wynedd ond i Gymru.

2. Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg – mae'r Cyfarwyddwr Addysg yn amcangyfrif fod gwasanaethau cymdeithas gyda dwy iaith yn ychwanegu tua £10 miliwn at gost addysg yng Ngwynedd. Nid oes unrhyw swm ar gyfer dwyieithrwydd yng ngrant cyffredinol y Llywodraeth.

3. Creu swyddi yng nghefn gwlad – y llynedd gwariodd Cyngor Sir Gwynedd tua £100,000 i helpu busnesau bychain i greu 360 o swyddi ychwanegol ac y mae cymorth o'r math yma yn hanfodol i gadw pobl ifanc Cymraeg eu hiaith yn eu cynefin.

Rwy'n ffyddiog y bydd awdurdodau lleol Gwynedd yn dal i gefnogi'r iaith Gymraeg hyd eithaf eu gallu ond sut y gellwch chwi ddisgwyl i awdurdodau eraill heb fwyafrif o Gymry Cymraeg i gefnogi'r Eisteddfod ac addysg ddwyieithog a busnesau bychain cefn gwlad pan mae'r Llywodraeth yn eu cosbi mor fympwyol ac ymyrryd â'u rhyddid i godi'r dreth? Rydym yn ddiolchgar, wrth gwrs, fod y Llywodraeth wedi cyfrannu £180,000 at yr Eisteddfod ond rhaid cofio bod staff Cyngor Sir Gwynedd yn unig yn talu £2m y mis i'r Llywodraeth mewn treth incwm, a bod 75% o bris pob galwyn o betrol yn mynd i'r Llywodraeth. Pe bai'r Llywodraeth o ddifrif am geisio helpu diwydiant a masnach yng nghefn gwlad Cymru nid ar drethi lleol y buasai'n ymosod ond ar bris petrol."

Gorffennodd Mr Rees ei araith trwy bwysleisio fod diffygion gwleidyddol y Papur Gwyn yn fwy difrifol hyd yn oed na'r peryglon cyllidol. "Unwaith y mae cyngor lleol yn gyfrifol am ei wariant i un dyn yn y Swyddfa Gymreig yn hytrach nag i'r etholwyr lleol y mae'r gymdeithas leol yn colli'r rhyddid i benderfynu ei blaenoriaethau ei hun yng ngoleuni ei gwybodaeth leol. Mae perygl ar yr un pryd i ryddid barn. Eisoes yr ydym ni mewn llywodraeth leol yn rhy ddibynnol ar grantiau i fedru siarad yn hollol ddi-flew-ar-dafod wrth y Llywodraeth ac wrth ambell i 'wuango'. Yn naturiol, 'does dim i'w ofni oddi wrth ddynion o waed coch cyfan: mae dynion o'r math yma yn rhoi mwy o barch i chwi os ydych yn barod i'w beirniadu. Gyda'r natur ddynol yr hyn ydyw, fodd bynnag, mae yna ofn cynyddol mewn llywodraeth leol fod rhyw ddynion bychain yma ac acw yn y system a all gosbi ardal am nad yw ei chynghorwyr a'i swyddogion yn ddigon o gynffonwyr. Erbyn hyn, yn ffodus, y mae'r Ceidwadwyr y tu mewn i lywodrath leol yn ogystal â'r pleidiau eraill wedi deffro i'r peryglon. Maent yn benderfynol o gael gwared ar y Papur Gwyn dieflig hwn a diogelu hawl etholwyr lleol i benderfynu trwy bleidlais a ydynt yn cymeradwyo polisi ariannol eu cynghorwyr. Mewn gwlad ddemocrataidd, ni ddylid fyth drosglwyddo'r fraint yma i un gweinidog o'r gwasanaeth suful."

# CYFLE AM SWYDDI YN Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

**Mae Cyngor Rheoli'r cwrs "Tystysgrif mewn Gwasanaeth Cymdeithasol 'Gwyniad' Gogledd Cymru" wedi gwneud cais am arian o gronfa arbennig y Cymuned Ewropeaidd. Bydd hyn yn rhoi cyfle i bobl di-waith gael hyfforddiant a phrofiad mewn gwaith gyda'r henoed a phobl dan anfantais feddyliol o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol.**

Fe dreulir tri niwrnod yr wythnos yn gweithio fel cynorthwywyr gofal mewn cartrefi preswyl neu ganolfannau dydd i'r henoed neu bobl dan anfantais feddyliol, a dau ddiwrnod yr wythnos yn cael hyfforddiant yng Ngholeg Technegol Gwynedd, neu Goleg Cartrefle, Wrecsam. Bydd yr hyfforddiant yn parhau am ddwy flynedd ac fe sicrheir y bydd pob un fydd yn llwyddiannus yn cael swydd llawn amser gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar ddiwedd y cwrs.

Mae'r cynllun newydd cyffrous yma yn cynnig cyfle arbennig i bobl sydd ar hyn o b ryd yn ddi-waith a thros 18 oed i ddechrau gyrfa yn y Gwasanaethau Cymdeithasol Personol. Fe gynigir yr hyfforddiant yma o Hydref 1983 ymlaen. Ceir manylion pellach oddi wrth: **Mr John Williams, Arolygwr Astudiaeth, Gwasanaethau Cymdeithasol, Maesincla, Caernarfon. Rhif ffôn: Caernarfon 4121, est. 2242.** Felly dylai'r rhai ohonoch sydd â diddordeb fynd ati rhag blaen.

# LLWYDDIANT YN LLANGEFNI

Llongyfarchiadau i bawb o'r fro a fu'n cystadlu ym Mhrifwyl Llangefni – a llongyfarchion arbennig i'r rhai a enillodd wobrau. Nid oedd yn bosibl cael lluniau pawb a fu'n llwyddiannus ar gyfer y rhifyn hwn. Efallai y cawn y pleser o wneud hynny yn y dyfodol.



*Seindorf Arian Deiniolen — cyntaf allan o saith yn Nosbarth C. Mr Dennis Williams yw arweinydd y band ond Mr John Childs oedd hyfforddwr ar gyfer yr Eisteddfod.*

Enillodd Nicholas Childs, mab hyfforddwr y Seindorf yr unawd pres (euphonium). Daeth Seindorf Llanrug (llun ohonynt ar y dudalen ganol) yn ail yn Nosbarth B. Roedd pedwarawd Seindorf Deiniolen hefyd yn ail agos iawn. Daeth parti offerynnol plant Waunfawr i'r brig yn eu cystadleuaeth hwy ac ail oedd parti dawnsio gwerin dan 15 oed Llanrug. Trydydd oedd parti cyd-adrodd Deiniolen.

Yn y cystadlaethau llenyddol cafodd Sylvia Prys Jones, y wobr gyntaf am gyfieithu drama o'r Llydaweg.

# CYTGORD HAPUS



**Cerddoriaeth bandiau fu'r cyfrwng pennaf i ddod â Nicholas Childs a Marian Williams at ei gilydd. Ar Awst 20 priodwyd y ddau yn Eglwys Deiniolen. Byddant yn ymgartrefu yn Doncaster.**

Cyfarfu'r ddau mewn cyngerdd bandiau ym Mangor. Roedd Marian yn aelod o seindorf Deiniolen, a Nicholas wedi dod yno yn lle ei frawd Robert , fel unawdydd gwadd.

Glöwr, 21 oed yw Nicholas ac

*Parhad ar dud. 12*

# CYFEILYDD IEUENGAF



*Mae Annette Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig yn cyfrif cael cyfeilio yn y Genedlaethol yn anrhydedd fawr.*

*Ar fyr rybudd y cyfeiliodd Annette yn lle dau gyfeilydd a gafodd eu taro'n wael. O'r herwydd, gorfu iddi gyfeilio yn y gystadleuaeth unawd soprano, a chystadleuaeth unawd tenor, a gorffen yr wythnos yn cyfeilio i'r soprano a'r tenor buddugol yng nghystadleuaeth y Rhuban Glas.*

*Yn ôl yr hanesydd Mr Huw Williams (Bangor, Annette yw un o gyfeilyddion (piano) ieuengaf yr Eisteddfod Genedlaethol y ganrif hon.*

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 84**

**MEDI**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*


## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Dafydd Whiteside Tomas, Bron y Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)
**GOLYGYDD NEWYDDION:** Tony Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun (Llanberis 872438)
**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (870515)
**DYDDIADUR Y MIS:** Miss Jane Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis (871561)
**FFOTOGRAFFWYR:** Ifan Parry, Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321) Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug (Caernarfon 77163)
Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)
**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)
**TREFNYDD GWERTHIANT:** Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)
**TREFNYDD ARIANNOL:** Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)
**TREFNYDD GWERTHIANT POST:** Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon 3227)
**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).
**BRYNREFAIL:** D.G. Ellis, Gweledfa (Llanberis 871223)
**CEUNANT:** Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glarafon (Llanberis 872275)
**DEINIOLEN:** W.O.Williams Tŷ Capel Disgwylfa (Llanberis 871259)
**DINORWIG:** O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)
**LLANBERIS:** Mrs Siân Thomas, Tŷ'r Ysgol (Llanberis 870220)
**NANT PERIS:** T.J. Roberts, Llys Awel
**LLANRUG:** Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)
**PENISARWAUN:** Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)
**TAN-Y-COED:** Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)
**WAUNFAWR:** Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)
**TREFNYDD PLYGU:** Edward Elias, 21 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)


**Y RHIFYN NESAF**

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

**MEDI 29**

Deunydd i law'r golygyddion perthnasol

**NOS FAWRTH**

**MEDI 20**

os gwelwch yn dda

# LLYTHYRAU

## YR ESGOB GOODMAN

*Annwyl Olygydd,*

*Gobeithio bydd rhywun o Rhuthun wedi cysylltu â chwi ynglŷn â'r erthygl ar 'Stryd Goodman' a gyhoeddwyd yn 'Eco'r Wyddfa' am fis Gorffennaf. Ni fu'r Esgob, nac ardal Llanberis elwa ar yr un prydles a roddwyd ar y tai a adeiladwyd yma bron i ddaucan mlynedd ar ôl ei farw.*

*Ni fuasai Esgob Goodman wedi gwneud ffortiwn o dir hollol greigiog a gwyllt yn y pedair blynedd y bu yma'n byw —.1643-1647.*

*Aeth ef yn ôl i Lundain a bu farw yn* 1655 *— felly sut y gallsai ef fod wedi gwneud arian ar y tai a ddechreuwyd eu hadeiladu yn* 1829?

Ond, yn ei ewyllys, penododd wyth Esgob yn ymddiriedolwyr ar ystâd Tŷ Du, felly, yn enwau'r Esgobion hyn y rhoddwyd prydles ar gartrefi a adeiladwyd gan y chwarelwyr.

Tybed oes gan y pwyllgor yna afael *o hyd ar ystâd Tŷ Du, oes yna rhyw elw yn mynd o hyd i'r 'Ruthin Charities'?*

*Credaf mai dyn da a chadarn ei syniadau oedd Godfrey Goodman (a'i dad Gabriel Goodman). Rhaid cofio fod 68 o Gristnogion wedi dioddef marwolaeth erchyll yn y cyfnod hwnnw —.Cymry i gyd! felly nid rhyfedd iddo ddod am gysgod i Tŷ Du ar ôl colli iechyd ac arian dros ei grefydd.*

*Diolch am weld enw un o'r Cymry yna ar furiau eglwys Gatholig Llanberis hefyd, St. John Jones; a diolch fod enw Goodman wedi ei anrhydeddu yn 'Stryd Goodman'. 'Roedd angen argyhoeddiad cadarn iawn i sefyll dros Gristnogaeth ac Undeb yn amser Siarl I; felly credaf mai gŵr da wedi dod am loches i Tŷ Du oedd Esgob Goodman a'i fod yn haeddu cael parch.*

*Bendith ar ei lwch yn St. Margaret, Llundain.*

*Dilys Baylis*
*1 Goodman St*
*Llanberis*

## AROLWG GWEITHREDU GWIRFODDOL 1983

*Syr,*

*Mae hanner cant o ymchwilwyr ar hyn o bryd yn mynd o amgylch pob plwyf a thref a phentref yng Nghymru yn gwneud arolwg o'r holl gwrpiau a chymdeithasau gwirfoddol. Dechreuodd y gwaith ar Orffennaf 1af a gobeithir ei gwblhau erbyn y Nadolig.*

*Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru sydd yn trefnu'r arolwg, corff sydd yn ennill parch y dyddiau hyn fel un sydd yn mynd ati o ddifri i asesu anghenion cymdeithasol Cymru, i leisio barn y mudiadau gwirfoddol ac i hybu cydweithrediad mwy effeithiol rhwng y cyrff gwirfoddol.*

*Llys Ifor yng Nghaerffili yw cartre'r Cyngor ac y mae swyddfa hefyd yn Wrecsam lle mae cyfrifiadur fydd yn llyncu'r holl wybodaeth a gesglir gan yr ymchwilwyr yn y broydd. Bydd y wybodaeth ar gael wedyn trwy lyfrgelloedd sirol, neu yn uniongyrchol i gymdeithasau neu unigolion sydd â diddordeb yn y wybodaeth. Er enghraifft, os oes rhywun angen gwybodaeth am y mudiadau neu'r grwpiau ar gyfer deillion sydd ar gael yn Nyfed, bydd yn bosibl pwyso botwm a chael rhestr brintiedig yn rhestru enw ysgrifennydd pob grŵp lleol, ei rif ffôn, ei gyfeiriad, a gweithgareddau'r grŵp. Neu pe bai ar y Mudiad Ffermwyr Ifanc awydd cysylltu â phob mudiad ieuenctid arall trwy Gymru, gallai'r compwitar gwybodus roi rhestr berthnasol iddynt hwythau.*

*P'run yw'r plwyf prysura yng Ngymru? Ai Trawsfynydd gyda tri deg ac un o gymdeithasau ar gyfer poblogaeth o ychydig tros 900? Dyma i chi un gymdeithas ar gyfer deg plwyfolyn ar hugain — yn amrywio o Gymdeithas Difa Llwynogod i Gôr Plant yr Orsedd, o bwyllgor eisteddfod Llawr y Stryd i gangen o'r Cyngor Diarfogi Niwcliar.*

*Diddorol iawn fydd gweld y patrwm cenedlaethol pan gwblheir yr arolwg. Cysylltydd yr ardal hon yw Angharad Williams, 41 Belmont Road, Bangor (Ffôn Bangor 353114).*

*Nia Medi*
*Swyddog Cyhoeddusrwydd*
*7 Parc Victoria*
*Bangor Uchaf*

## GALW'R CYMDEITHASAU, AELWYDYDD, CLYBIAU

*Noson ddifyr ar gyfer Rhaglen y Gaeaf*

*Annwyl Gyfaill,*

*Er y gŵyr pawb am* Curiad, Cynefin *a* Pais, *a bod llawer iawn o Gymry yn eu prynu a'u darllen, mae lle i gredu y gellid cynyddu cylchrediad y cylchgronau uchod yn sylweddol. Fe'm penodwyd i fel Swyddog Hybu Cylchgronau Poblogaidd er mwyn ceisio gwireddu'r gobaith hwn, ac fel rhan o'm gwaith, byddaf yn teithio o gwmpas Cymru i sgwrsio â gwahanol gymdeithasau a sefydliadau.*

*Os oes gennych ddiddordeb mewn clywed sgwrs a gweld sleidiau ar gylchgronau Cymraeg poblogaidd a'r modd y'u cynhyrchir, gellir cysylltu â mi drwy ffonio Aberystwyth 4151 neu ysgrifennu ataf yn y cyfeiriad isod.*

*Yn gywir*

*Siân Teifi*
*Y Cyngor Llyfrau Cymraeg*
*Castell Brychan*
*Aberystwyth.*

## CYSTADLAETHAU GWYNEDD 1983-84

*Annwyl Syr,*

*Hoffem drwy gyfrwng eich papur roi sylw i gystadlaethau Panel Llyfrau Cymraeg Gwynedd.*

*1. Pennod gyntaf nofel antur fer yn ymwneud â'r gofod, addas i'r oedran 9-11, ynghyd â braslun o weddill y nofel.*
*Gwobr: £20 yr un hyd at 3 ac ystyrir cynnig comisiwn i gwblhau'r gwaith i'r ymgeiswyr llwyddiannus.*
*Beirniad: Selwyn Lloyd*

*2. Siart neu gyfres o siartiau dysgu ar gyfer unrhyw oedran neu faes dysgu. Dylid drafftio'r gwaith yn y maintioli a fwriedir gan lythrennu yn y maint iawn. Cyfyngir i ddau liw. Noder ffynhonnell unrhyw luniau.*
*Gwobr: £100 i'w rannu yn ôl teilyngdod.*
*Beirniad: R. Cyril Hughes.*

*3. Rhaglen fideo wreiddiol ar unrhyw agwedd o astudiaethau'r amgylchfyd yng Ngwynedd, ar gyfer yr oedran 8-11 neu 11-13.*
*Gwobr: £50 i bob gwaith teilwng hyd at £200.*
*Beirniad: Wil Aaron.*

*4. Rhaglen gyfrifiadur ar ffurf gêm i ddatblygu iaith. Dylai'r nodiadau efo'r rhaglen ddangos ar gyfer pa oedran y bwriedir y gêm. Dylid paratoi'r rhaglen ar ffurf tâp neu ddisg a dylid nodi ar gyfer pa beiriant y'i lluniwyd.*
*Gwobr: £50 i'w rannu.*
*Beirniad: Dr Gareth Roberts.*

*5. Cyfieithu nifel i blant. (Manylion llawn o'r swyddfa.)*
*Gwobr: £100 i'w rannu.*

*Anfoner y gwaith i'r Swyddfa Addysg, Caernarfon, erbyn 31 Mai 1984. Ffugenw'r ymgeisydd yn unig a ddylai fod wrth y gwaith gydag enw a chyfeiriad yr ymgeisydd ar wahân.*

*Yn gywir,*
*Gwilym Humphreys*
*Cyfarwyddwr Addysg*

*Annwyl Olygydd,*

*Hyfrydwch mawr i mi oedd clywed ar y radio am lwyddiant plant y Waun yn Eisteddfod yr Urdd a hoffwn longyfarch y plant a'r rhai fu'n eu hyfforddi hefyd. Cefais flas hefyd ar ddarllen eu gwaith yn eich Papur diddorol, a hyn a wnaeth i mi gofio y Waun pan oeddwn i yn fachgen yno. Os gwn i faint sydd yn aros a all ddod am dro hefo mi?*

*Yr oedd fy nhgartref i ar Lôn Isa, y ffordd sydd yn arwain o'r Posg i Garreg Fawr ac ar ben Allt Min y Nant. Wrth fynd i gyfeiriad y Post arweiniai y troad cyntaf ar y dde i Bentre Waun, clwstwr o dai ac yn eu mysg yr oedd hen siop. Ni chofiaf neb yn gwerthu dim yno, ond yr oedd un ffenestr mwy na'r cyffredin yn y bwthyn. Wedi mynd heibio i Cymant Lodge yr oedd llwybr cul yn arwain at bont yr afon — 'Y Gerddi Mawr' oedd ein henw ni arno, a gyferbyn â'r man y deuai i'r Lôn Bost, yr oedd llidiart yn arwain i'r lle y byddai John Wmffras y Glo yn cadw'r ceffyl a'r drol. Yr oedd ganddo gwt bach hefyd yn iard y stesion lle yr elai merched ei ddosbarth Ysgol Sul i wrando recordiau y gramaphon ac i arogli y sebon sent (rhywbeth 'velvet') os cofiaf yn iawn. Gwell arogl na'r Lifebouy!*

*Yn nes i'r Post yr oedd Gerddi Bach eto yn rhedeg i'r Lôn Isa ar un ochr iddi yr oedd gan Nain sied reit fawr yn llawn o lestri te ac yn ei thŷ ar yr ochr*


**WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL**

**GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF**

**ATGYWEIRIO TAI GWAIR**

**E. PUGH**

**WELDING & FABRICATING**

32 GLANFFYNNON

**LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 5394

## LLYTHYRAU *parhad*

*arall i'r llwybr y gwnâi ac y gwerthai ei da-da lympia bob un werth dima a cheiniog. Bu-fy chwiorydd yn anfon rhai i mi bob Nadolig am lawer blwyddyn.*

*Lôn Ddŵr oedd y ffordd o'r capel am y Post, ac ar y Maes Bach yr unai hi â'r Lôn Isa. Yr oedd Siop yn Bryn Pistyll a siop da-da Ann Hughes yn Terrace Lôn Ddŵr. Ar y chwith i'r Maes Bach yr oedd yr iard lle cadwai John Bwtchar ei gar a'i geffyl ac yr oedd ei siop yn y tŷ lle trig Mrs Mary Awstin Jones yn awr. Lle saif y becws yr oedd cwt siafio Shôn Go. Yno yr elai y chwarelwyr i gael 'shave' cyn y Sul — man cyfarfod oedd. Yna 'Maelfa Eryri' a adeiladwyd gan Bob Glan Gwyrfai ar ôl brifo ei goes yn y chwarel. Brawd ydoedd i'r diweddar Dewi Gwyrfai.*

*Ann Jones a gadwai'r Post — aeth un mab yn feddyg a'r llall yn A.S. Gyferbyn â Maelfa Eryri daeth siop bwtchar Johnny Ty'n Gadlas. Yr ochr isa i Bryn Meredydd yr oedd tŷ Ifan Ifans y Teiliwr a'r ochr uchaf Siop Owen Lloyd a chyn cyrraedd y Gof Golofn siop Catrin Gruffudd.*

*Ar waelod Lôn yr Ysgol yr oedd siop William Butcher, ac yn uwch na'r ysgol gyferbyn â Bryn Melyn safai gweithdy Hugh Robert y Saer, ef a wnâi eirch i'r pentref. Rhyw 4-5 tŷ ar Lôn Ysgol yn y terrace siop da-da Miss Williams a gyferbyn â giât Glyn Afon gweithdy Robert Jones y Crydd. Yna Siop Owen Williams, a'r ochr arall rhyw led cae y Pobty Mawr.*

*Yn lle yr oedd Garage Cyntaf Willie a Glyn yr oedd gweithdy saer Robert Williams. Bu Mrs Williams yn athrawes Ysgol Sul arnaf am gyfnod ac y mae'r ferch Enid a Gwynn ei gŵr newydd symud i fyw i Morfa Nefyn. Y drws nesaf oedd siop sgidia Cadwaladr, yn ddiweddarach Siop Paent Gwilym Edwards fu am flynyddoedd yn organydd Capel Waun. Yr oedd un siop os cofiaf yn iawn yn Croes y Waun — siop Lizzie Catrin?*

*Yn yr Hen Ysgol y byddai Band y Waun yn ymarfer. Pen draw y Waun oedd efail Robat Williams y Gof. Bûm yno lawer tro yn ei weld wrth ei waith. Dwy siop a gofiaf yn y Groeslon, sef Siop John R, Siop Grosar a Siop Johnnie Bach y Cigydd.*

*Os gwn i a all rhywrai gofio am rai eraill?*

*Peidied y plant â synnu nad wyf yn defnyddio Mr, Mrs a Miss ond yn anaml, er ein bod yn cyfarch ein hathrawon yn yr ysgol felly a'r gweinidog hefyd, enwau bedydd a ddefnyddiwyd yn y pentre yn fy oes i.*

*Bendith fo i'r Papur Bro*
*J.P. Williams*

*O.N. Diolch am lun o'r Garreg Fawr. T.H. Williams oedd fy nghyfaill pennaf ac yn yr hen adeilad ac o'i gwmpas y byddem yn chwarae a gwneud drygau hefyd. Mae gen i gof annwyl iawn am oriau difyr ar dir Garreg Fawr ac y mae craith ar fy mhen glin sydd yn 70 mlwydd oed a wnaed gan lechen yno.*

*36 Shelton Road*
*Shrewsbury*

*Annwyl Olygydd,*

*Buaswn yn falch iawn o gael gwybodaeth am Ffynnon Cegin Arthur. Mae Ffynnon Cegin Arthur yn agos i'm cartref ac rwyf yn deall fod rhinwedd yn nŵr y ffynnon sy'n gwella cryd cymalau.*

*Mae'r dŵr yn goch.*

*Buaswn yn falch o gael gwybod pwy oedd yn byw yn y tŷ. Yr wyf wedi bod yn ymyl y ffynnon yn ddiweddar ac nid yw'n bosib. Mynd yn agos ati gan fod y comisiwn coedwigaeth wedi plannu coed yno. Mae'r ffynnon o'r golwg dan goed a mieri mawr.*

*Yn ddiolchgar iawn,*
*Evan Wyn Jones*
*3 Bryn Tirion*
*Penisarwaun*

## PEIDIWCH Â CHOLLI SBONCYN!

**yng nghwmni**
**THEATR BARA CAWS**

Ynghyd â bod yn olygydd y cylchgrawn misol poblogaidd i blant Cymru, mae Sboncyn hefyd wedi mynnu fod Theatr Bara Caws yn cynhyrchu sioe arbennig a fydd yn defnyddio cymeriadau lliwgar ei gomic o – Winnie Wirion, Alis Ofalus, Capten Penwaig a Moi, Teulu'r Jac Dos . . . i enwi dim ond rhai! Mae Sboncyn am i holl blant Cymru weld y sioe newydd sbon sboncyn yma a gaiff ei pherfformio mewn theatrau a neuaddau ledled Cymru yn ystod mis Medi a Hydref, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod am y perfformiad agosaf atoch chwi.

Sioe liwgar, gyffrous, gerddorol na fedr neb ffordio ei cholli, gan fod Sboncyn wedi dewsi ei actorion yn ofalus iawn – cast sy'n cynnwys Mari Gwilym, Elfed Dafis, Sara Harris-Davis, Tom Richmond, Sian Wheldon a Philip Brook.

Y cyfle cyntaf posib i weld y sioe anhygoel yma yw nos Lun Medi'r 5ed yn Theatr y Ddraig y Bermo ond mi fydd Sboncyn hefyd yn Ysgol Brynrefail Llanrug ar Fedi 29, 1983.

Gallwch ffonio Theatr Bara Caws i holi am docynnau (BANGOR 355579).

## RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau cynhyrchu'r Eco:

**£1.00:** Di-enw, Penisrawaun; Mrs Betty W. Davies, 82 Pentre Helen, Deiniolen; Mrs S. Roberts, 13 Rhos Rug, Llanrug; Mr a Mrs I. Williams, Gwelfryn, Llanrug; Mrs A. Jones, Penisarwaun; Mrs M. Thomas, Bod Awen, Penisarwaun.

**£2.00:** J. Williams, Pennant, Nant Peris; Mr a Mrs D.W. Jones, 3 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs M. Evans, Mes-y-dref, Clwt-y-bont; Di-enw, Clwt-y-bont; Mrs J. Eddy (Warle gynt), Penygroes; Mr H. Ronald Jones, 8 Llys-y-garn, Caernarfon; Y Cynghorydd R.E. Williams, 12 Maes Eilian, Dinorwig.

**£3.00:** Mrs B. Morris Jones, 101 Tre Gof, Caernarfon.

**£5.00:** Mr Evan W. Jones, 3 Bryn Tirion, Penisarwaun.

### DOSBARTHIADAU CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR

**Mae rhaglenni'r gaeaf ar gael yn awr yn y llyfrgelloedd a'r canolfannau, a chan yr ysgrifenyddion lleol. Fe gewch ynddynt y manylion am ein gwahanol gyrsiau, taliadau a.y.b.**

**Byddwn yn ddiolchgar iawn am eich cefnogaeth unwaith eto, ac am bob cymorth i genhadu'n lleol dros y Gymdeithas.**

**Os am fanylion pellach, cysylltwch ag Ifor Baines (Tiwtor-Drefnydd), Ffôn: Penygroes 881328.**

# BETHEL

**Gohebydd – Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)**

Y CARNIFAL: Cynhaliwyd y carnifal yn ystod wythnos olaf Mehefin. Bu'n wythnos lwyddiannus iawn eto eleni gyda'r holl weithgareddau yn cael eu cefnogi'n dda iawn. Roedd nifer dda iawn yn cystadlu yn y cystadlaethau gwisg ffansi ac hebddynt hwy ni fyddai'r diwrnod wedi bod hanner mor liwgar. Llongyfarchiadau eto eleni i Mrs Catherine Jones am wneud dillad mor hardd i'r frenhines Carys a'i gosgordd Amanda, Ceri a Meriel. Diolch i'r pwyllgor am eu gwaith drwy'r flwyddyn ac yn enwedig i Rhian Birkett yr ysgrifenyddes am ei gwaith caled.

LLONGYFARCHIADAU i Clive, mab Mr a Mrs Eifion Roberts, 21 Bro Rhos am ennill cwpan arian o dan nawdd y 'St John Ambulance'. Cafodd Clive ei wobrwyo yn Eglwys y Santes Fair, Caernarfon gan y Dr Noel Roberts, K. St. John.

Roedd y Cwpan yn cael ei rhoi i'r cadlanc a roddodd fwyaf o oriau i'r cyhoedd yn ardal Eryri yn ystod y flwyddyn. Clive oedd y cyntaf erioed i ennill y cwpan.

Mae Clive sy'n 13 oed ar gychwyn ei 3edd flwyddyn yn Ysgol Syr Hugh Owen.

LLONGYFARCHIADAU i D. Alan Owen, 20 Cremlyn ar ei lwyddiant yn yr arholiadau diweddar.

Bu nifer o blant y pentref yn llwyddiannus yn eu harholiadau ddiwedd y tymor. Rwy'n siŵr ein bod yn dymuno bob llwyddiant iddynt yn y dyfodol. Gobeithio bydd y plant sy'n dechrau yn yr ysgol gynradd ac uwchradd yn hapus yn eu hysgolion newydd.

MERCHED Y WAWR: Bydd y tymor newydd yn dechrau Medi 7. Cynhelir taith gerdded noddedig yn cychwyn o'r ysgol ar y nos Fercher.


YR YSGOL FEITHRIN: Bydd tymor newydd yn dechrau Medi 5 am 9.15. Dewiswyd swyddogion newydd ddiwedd y tymor diwethaf. Llywydd: Mrs Ann Hopcyn, Ysgrifennydd: Mrs Mair Reed. Trysorydd: Mrs Sian Robinson.

LLONGYFARCHIADAU: i Dafydd a Pat Jones, Cefn ar enedigaeth eu mab, Huw.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf yn yr ysgol nos Iau, Goffennaf 14 dan arweiniad y Llywydd, Mrs E. Jones, Awel y Grug. Y wraig wadd oedd y Nyrs Jane Jones, Llanrug, yr ymwelydd iechyd. Cafwyd sgwrs a ffilm ddiddorol iawn ar iechyd. Cafwyd adroddiad ar y Cyfarfod Blynyddol yn Llundain gan Mrs Gwyneth Williams, Llain yr Ardd. Y gwestwragedd oedd Mrs E. Jones, Awel y Grug a Mrs A.E. Williams, Tŷ Newydd. Diolchwyd gan Mrs B. Ellis, 15 Cremlyn. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn yr ysgol ar Fedi 15.

DIOLCHIADAU: Dymuna Mr Euron Griffith, Crud yr Awen ddiolch o galon i bawb am y dymuniadau da a'r cardiau lu a dderbyniodd yn dilyn ei lwyddiant yn ei arholiadau gradd ym Mhrifysgol Canterbury.

## DIOLCH I'R NYRS



*Y Cynghorydd Sam Jones a Carys, Brenhines Carnifal Bethel, yn cyflwyno tysteb i Beti Jones o'r Felinheli a fu'n gwasanaethu am flynyddoedd maith fel nyrs yn yr ardal.*


**BILL ac EILEEN GRIFFITHS**



**Antiques**
**Ivy Cottage**
**BETHEL**

*Ffôn:*
*Y FELINHELI 670556*

**PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU**

*Telir prisiau da*
*Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol*

# LLANBERIS

Gohebydd – Mrs Siân Thomas, Tŷ'r Ysgol, (Llanberis 870220)

CYMDEITHAS Y MERCHED: Mehefin 25 yng ngardd Dolafon cynhaliwyd Ffair Haf gyda'r Cynghorydd Francis Jones yn agor y gweithgareddau yn swyddogol. Daeth cynulliad da iawn o'r pentrefwyr ynghyd a diddorwyd y gynulleidfa gan 'Ddawnswyr yr Aelwyd'. Gwnaed elw sylweddol, y cyfan i'w gyflwyno i Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon. Dymuna aelodau'r gymdeithas ddiolch i bawb am eu rhoddion ac i'r rhai fu'n presenoli eu hunain yn y ffair.

LLONGYFARCHIADAU: i'r Parch Gwynfor Williams, Stryd Newton ar ei urddo yng Nghaerdydd gan Arglwydd Aberdâr – yn 'Gadlywydd' gyda Brigad Sant Ioan. Cafodd aelodau o Frigad Dân Llanberis dystysgrif a diolch am waith anrhydeddus yn ystod y flwyddyn.

UNDEB Y MAMAU: Gorffennaf 5 arweiniwyd Undeb y Mamau, Eglwysi Sant Peris a Sant Padarn gan y Parch A.W. Cherry, a rhoddodd anerchiad ddiddorol ac addysgiadol iawn ar 'Yr Eglwysi Celtaidd'. Yr organyddes oedd Mrs G.O. Edwards. Yn ystod y cyfarfod dymunwyd adferiad buan i rai o'r aelodau, sef Mrs Nellie Roberts, Noddfa, Mrs T.L. Williams a Mrs E. Jones.

Darparwyd y lluniaeth y mis hwn gan aelodau Eglwys Sant Peris, Nant Peris, sef Mrs Nellie Roberts, Miss Selina Morris, Mrs Simmons, Mrs Elias Griffith a Mrs Betty Humphreys.

Diolchwyd i'r Parch A.W. Cherry am ei araith ddifyr, ac i'r aelodau o Nant Peris am y lluniaeth gan Mrs Denness Hughes, yn cael ei chefnogi gan Mrs Ella Houdle.



PRIODAS: Yn Eglwys Sant Padarn ddydd Sadwrn, Mehefin 25 gyda'r Parch Richard Jones, y Deon Gwlad yn gwasanaethu a Mr Huxley Thomas wrth yr organ, priodwyd Carys Wyn, unig ferch Mrs June Williams, 6 Maes Padarn a Keith, ,mmab Mr a Mrs Williams, Liverpool House, Baptist Street, Penygroes. Daeth llu o gyfeillion ynghyd i Westy'r Fictoria i ddymuno'n dda i'r ddeuddyn ifanc. Byddant yn cartrefu ym Mryn Celyn, Rallt Goch, Llanberis.

Dymunir iddynt flynyddoedd lawer o ddedwyddwch.

CERDDOROL: Bu'r plant yn llwyddiannus yn arholiadau canu'r piano ac hefyd mewn damcaniaeth: Cam I: Helen J. Gartside (Dosb 1); Catherine Anne Gray Williams (Dosb 1); Stuart Bruce Turner. Cam II: Robert Edmund Gray Williams (Dosb 1), Stacey Lle Turner (Dosb 1); Trystan Applegale Rees. Gradd I: Trystan Thomas (Dosb 1). Gradd 2: Susan Lloyd Jones, Llanrug. Gradd IV: Sharon Roberts, Llanrug. Gradd I: Kathy Jones. Gradd I: Vera Lynne Jones, Christine Pitts, Sian Griffith, Sandra Williams, Hannah Rudkin. Gradd II: Nia Griffith, Bethan M. Jones, Myfanwy Roberts. Gradd III: Einir Hughes.
Gradd IV: Catrin Lloyd Roberts, Alison Edwards, Cheryl Edwards, Helen Mai Pritchard Gradd V: (Damcaniaeth yn unig: Lisa Rudkin.

Addysgwyd y rhain gan y ddiweddar Clarice Williams.

MARWOLAETHAU: **Gwen Fosse:** Yn yr ysbyty yn y Rhyl rai wythnosau'n ôl bu farw Gwen, priod Ernest Fosse, a mam annwyl iawn i Ruth. Cofiwn fel ardalwyr i Gwen ac Ernest wneud eu cartref yn yr hen gartref yn Stryd Tomos hyd yn ddiweddar iawn cyn iddynt benderfynu symud i fyw gyda'u merch Ruth yn y Rhyl. Un o wir ferched Llanberis ydoedd Gwen, yn ferch i'r diweddar Charles Owen a'i briod a chanddi chwe brawd. Bu'r teulu'n ffyddlon iawn i'r achos yn Nant Padarn ar hyd y blynyddau ac Aled Owen yn dal y cysylltiad gyda'i ffyddlondeb fel organydd.

Cydymdeimlir ag Ernest, Ruth a'i phriod, y brodyr, sef Aled Owen, Stryd Siarlot, Llanberis, Myrddin Owen a'i deulu o Gwm-y-glo ac Alfyn Owen sydd yn byw yng Nghaernarfon, hefyd y cefndryd ymhell ac agos.

**Clarice Williams:** Yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor ar Orffennaf 2 bu farw Clarice Williams, Summer Hill yn 75 oed. Flynyddoedd yn ôl yn Lerpwl oedd ei chartref, ond symudodd y teulu i Nantglyn ac oddi yno i Lanrug, gyda'i thad yn mynd i weithio i Chwarel Dinorwig. Tua 35 mlynedd yn ôl symudodd hi gyda'i mam a'i thad i fyw i Lanberis lle y dechreuodd gymryd diddordeb gyda dysgu plant ifanc iawn i ganu'r piano. Gellir dweud yn hawdd iawn ei bod wedi addysgu dwsinau o blant, a rhai ohonynt yn ddyledus iawn iddi am y gyfarwyddid a gafwyd ganddynt i sicrhau y swyddi cerddorol sydd ganddynt heddiw. Bydd colled fawr ar ei hôl.

Bu ganddi Gôr Genethod am flynyddoedd, a gwnaeth y côr enw da iddo'i hun am gyfnod.

Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Llanddeiniolen, gyda'r Parch R.W. Blainey yn gwasanaethu yn y tŷ, ac wrth lan y bedd. Estynnir cydymdeimlad â'r teulu yn eu galar.

SWPER RHYNGWLADOL: Bu Mrs Jan Davies, Stryd-y-dŵr yn Quebec, Canada yn ymweld â'i merch, Jean, sydd wedi bod yng Nghanada ers tair blynedd ar hugain. Yn yr ardal lle mae Jean yn byw mae ganddynt arferiad ar un diwrnod arbennig yn y flwyddyn i gynnal gwledd fawreddog pryd y gwahoddir cynrychiolaeth o wahanol wledydd. Eleni cafodd Cymru ei chynrychioli pan fu Jean a'i mam yn paratoi pryd bwyd Cymreig i gant o bobl. Roedd cynrychiolwyr eraill yn paratoi bwyd o'i gwledydd eu hunain. Roedd canmoliaeth uchel iawn i'r danteithion Cymreig, a dyma'r tro cyntaf iddynt gael eu blasu gan bobl o bob cwr o'r byd. Gwelwch yn y llun Mrs Davies a'i merch wrthi'n brysur yn paratoi'r danteithion.



*Y Swper Rhyngwladol.*

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod mis Gorffennaf yn y Ganolfan gyda Mrs Hannah Jones yn llywyddu. Wedi darllen y cofnodion a'r llythyr misol mynegodd y Llywydd gydymdeimlad y Sefydliad â Mr Batten, Mrs Megan Hughes a Mrs Katie Griffith, i gyd wedi cael profedigaethau yn ddiweddar. Fe fu Mrs Batten yn aelod ffyddlon iawn o'r Sefydliad am flynyddoedd lawer.

Croesawyd Mrs Jan Davies yn ôl ar ôl ei hymweliad â Chanada, a hefyd dymunwyd adferiad buan i Mrs Martha Hughes, oedd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Llongyfarchwyd Mrs Dilys Jones ar fod yn hen-nain.

Y gŵr gwadd am y noson oedd Mr Bobby Haines, Caernarfon, a chafwyd sgwrs ddiddorol dros ben ganddoa sleidiau o'i helyntion a'i brofiadau yn ystod ei ymweliad â Chanada. Diolchwyd i Mr Haines ac i'r gwestwragedd am y noson gan Mrs Enid Owen a Mrs J. Lloyd Jones. Y gwestwragedd oedd Mrs Jan Davies, Mrs A.M. Evans, Mrs Ethel Jones a Mrs Dilys Phillips. Enillwyd y raffl gan Mrs Jan Davies.

Fe gasglwyd £54.01 gan yr aelodau tuag at 'Gymdeithas y Spastics'. Penderfynwyd rhoddi cyfraniad o'r arian i'r 'Gronfa Diarfogi' er cof am Mrs Batten, Maes Padarn a fu'r aelod ffyddlon iawn am flynyddoedd.

'BRITISH HEART FOUNDATION': Trefnwyd casgliad o dŷ i dŷ tuag at yr uchod a chasglwyd y swm o £604.42. Dymuna'r pwyllgor trefnu ddiolch i bawb am eu haelioni.

CYDYMDEIMLAD: Yn ystod yr wythnosau diwethaf yma mae amryw o'r trigolion lleol wedi eu brawychu gan siomedigaeth, digalondid a phryder drwy golli aelod o'r teulu a wnaethant eu cartrefi tu allan i'r ardal hon. Mawr yw ein cydymdeimlad fel ardalwyr â'r teuluoedd oll yn eu colled a'u hiraeth.

Wedi rhyw ddiwrnod neu ddau o salwch bu farw priod Tim, mab hynaf (drwy briodas) Mrs Dilys Baylis, Meirionfa. Bachgen tawel a dymunol oedd Tim, a'i briod ac yntau'n llawn o hyder, wyneb llawen a chalon iach, ac roedd ei briod yn meddu ar feddwl pwyllog, ac yn llawn gwaith bywiog. Fe dystiodd ei chymdogion a'i chyfeillion yn Llandudno eu gwerthfawrogiad o'i hadnabod fel ffrind a chymydog. Estynnir y cydymdeimlad llwyraf â'r teulu i gyd yn y brofedigaeth lem.

Collodd Mrs Beti Rees Evans, Teras Minafon gyfneithr yn Ysbyty'r Bwthyn, Caernarfon. Bu Jennie Williams (Jennie Llwyncoed) fel yr adnabu'r trigolion hi, farw ar ôl cystudd hir a blin wedi ei ddioddef yn dawel a dirwgnach. Priododd Jennie, merch y diweddar Jo Llwyncoed, Cwm-y-glo, â'r diweddar Robert John Williams, Olgra Terrace. Estynnir cydymdeimlad â Beti Rees Evans a'i brawd Michael Roberts.

Collodd y Cynghorydd Ian Jones, Stryd Newton ei nain yn ddiweddar. Roedd yn byw yn Lloegr.

Daeth newyddion brawychus iawn i'r ardal i Mrs Mair Eluned Owen, Bod Owen, fod ei nai Richard wedi cyfarfod â damwain angheuol yn ei gartref yn Leicester. Gŵr ifanc 46 oed ydoedd yn briod a thad annwyl. Cydymdeimlir â'i briod a'i blant, ei fam Maggie Gwyneth, fel y cofiwn hi, a'i ddwy fodryb Mrs Mair Eluned Owen a Miss Emily Evans, Stryd y Dŵr.

Yn yr ysbyty yn yr Amwythig ar yr ail o Awst bu farw un o fechgyn anwylaf yr ardal – Y Parchedig Erasmus Jones, gynt o Blaen-y-ddôl. Cydymdeimlir â William Christmas Jones, Blaen-y-ddôl a John Rees Jones a'i briod, 49 Maes Padarn, ei ddau frawd a'r teulu i gyd yma ac acw yn eu colled.

Cydymdeimlir â Mrs Menai Jones, o golli ei nith, Nyrs Beti Hughes, Rhiwlas. Hefyd yr un cydymdeimlad â Nyrs Marian Jones, a Mrs Carys Hughes, cyfnitherod.

Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â Mrs Griffith John Griffith, Bryn Llwyd ar golli ei chwaer, Miss Mary Roberts, a fu ers wythnosau yn ysbyty Bryn Beryl, Pwllheli. Cartrefai Mary Roberts yn Sarn Bach, ger Abersoch ac roedd yn flaenor bywiog iawn yn Eglwys Bwlch Tocyn. Claddwyd hi ddydd Sadwrn, Awst 27.

GWAELEDD: Er y tywydd hafaidd braf yr ydym yn ei fwynhau ar hyn o bryd, mae llawer o'r ardalwyr wedi mynd i'r ysbyty am driniaeth a rhai wedi dychwelyd gartref. Dymunir adferiad llwyr i'r oll ohonynt pa le bynnag y maent ar hyn o bryd:

Mrs Betty Hughes, Stryd yr Wyddfa – bu hi yn Lerpwl yn derbyn triniaeth ond wedi dychwelyd gartref. Roedd holl blant y Stryd yn falch o weld Anti Beti wedi mendio a dod adref. Mr Iorwerth Jones, Dôl Eilian, gartref mae yntau ar ôl triniaeth lawfeddygol ym Mangor. Hefyd Mrs Jennie Maud Jones, Maes Padarn gartref o Ysbyty Môn ac Arfon ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol.

Mrs Ken Jones, Maes Padarn hithau wedi dychwelyd gartref ac yn gwella'n dda.

Pleser oedd gweld Mrs Hettie Hughes – priod Bob Hughes, Stryd Siarlot gartref yn ôl ar ôl ysbaid gyda'i merch. Yn wir mae'n edrych yn well o lawer, mae'n amlwg ei bod wedi derbyn "tendans" da gan ei merch am rai wythnosau.

Yn Ysbyty Bangor y mae Mrs Nellie Williams, 5 Stryd Turner, ac wedi dychwelyd i Ysbyty'r Nerfau, Dinbych y mae Mrs Nellie Morris, 9 Stryd Turner.

Y RAS NOFIO: Dydd Sadwrn, Gorffennaf 23 trefnwyd y rasys nofio ar hyd Llyn Padarn. Roedd ras i oedolion ac hefyd i blant.


**CABS PADARN**

**FFÔN: LLANBERIS 871347**

**Gwasanaeth Tacsi a Bws Mini**

**Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd**

**Unrhyw bellter: Hur Gontract**

# LLANBERIS

**(parhad)**

TRIPIAU'R YSGOL SUL: Yn ystod Mehefin a Gorffennaf bu plant yr holl o'r Ysgolion Sul am drip undydd i'r Rhyl neu i Butlins, Pwllheli. Cafwyd diwrnod difyr gan yr oll o'r plant a'r rhieni.



PENODIAD: Llongyfarchiadau calonnog iawn i Tony, mab Mrs Yvonne Maxwell Hughes, Teras yr Afon, Stryd Goodman ar ei benodiad yn athro yn Ysgol Pen y Cae, Penmaenmawr. Dechreuodd ei addysg yn Ysgol Dolbadarn, yn Ysgol Brynrefail, ac yna ennill ysgoloriaeth i'r Brifysgol ym Mangor. Erbyn hyn mae Tony wedi graddio yn B.A. (gydag anrhydedd), ac mae'n parhau i astudio am ei M.A. Bu'n llwyddiannus yn yr arholiadau 'Cymhwyster i Ddysgu'. Cafodd ei B.A. mewn Ystadegau Economeg a Chyfrifiaeth ac mae ei olygon ar Ddeothuriaeth.

Da iawn wir Tony – pleser i'r ardalwyr yw darllen am un o fechgyn yr ardal yn gweithio mor ddygn ac yn amcanu mor uchel, ac yn llwyddiannus yn ei holl ymdrechion.

CROESO I'R ARDAL: Estynnir croeso cynnes iawn i Wendy ac Eifion Hughes, sydd wedi gwneud eu cartref yn ddiddos yn 21 Stryd Goodman. Cewch groeso mawr gan y pentrefwyr a phob cymwynas os mynnwch.

DYWEDDÏAD: Pritchard - Williams – Llongyfarchiadau i John, unig fab Mr a Mrs John A. Pritchard, Stryd Ceunant ar ei ddyweddïad â Carys, unig ferch Mr a Mrs K.W. Williams, Trem Cynfi, Penisarwaun.

Williams - Jones – Llongyfarchiadau ar ddyweddïad Gareth, mab Mr a Mrs J.C. Williams, Bod Owen, Teras Cambrian â Dilys, merch Mrs Joyce Jones a'r diweddar Emyr Jones, 27 Dôl Elidir.

Jones - Jones – Llongyfarchiadau i Gareth, mab y diweddar Mr a Mrs William Jones, 10 Rhes Fictoria ac Alwen merch Mrs M. Jones a'r diweddar R.T. Jones, Tŷ Bethel, Rhos Isaf.

Williams - Jones – Llongyfarchiadau i Adrian, mab hynaf Mr a Mrs Dennis Williams, Manchester Row, 23 Stryd Fawr a Brenda merch Mr a Mrs Gwilym Jones, 10 Rhes Cilfodan, Bethesda.

Richard a Sharon – Dymuniadau da i Richard, mab Mr a Mrs Ted Toleman, 10 Maes Padarn a Sharon o Fethesda.

CLWB METHEDIG ERYRI: Trefnwyd Noson Goffi yn y Ganolfan nos Fawrth, Mehefin 28 gan aelodau'r Clwb Methedig. Agorwyd y noson gan Mrs M. Hughes, Tan-y-clogwyn. Gwnaed elw o £252.



*Eurwyn Jones*

PERSONOL: Yng Nghyngor Cymuned Iechyd Arfon a Dwyfor etholwyd Mr Eurwyn Jones, Tawel Lan, cadeirydd y Cyngor, yn aelod o Gymuned Iechyd Gwynedd. Llongyfarchiadau iddo.

CROESO GARTREF: Croeso cynnes iawn i Griff Hughes a'i briod ar eu gwyliau yn yr ardal o Canada. Fel Griff y Postman yr adnabu pawb ef ers stalwm, ond mae'n amlwg fod Canada yn fwy llesol i Griff na'r ardal hon, mae'n edrych yn gampus iawn. Gwyliau difyr iddynt tra yn ei plith.

O Quebec, Canada y mae Jean, a'i theulu yng Nghymru ar eu gwyliau. Merch Mrs Jan Davies, Stryd-y-dŵr a'r diweddar William Davies, Garej yr Wyddfa yw Jean.

Gwyliau hapus i chwi fel teulu.

GWASANAETH PLANT: Bore Sul, Awst 1af yn Eglwys Nant Padarn cafwyd gwasanaeth hapus a chartrefol gan blant. Roedd Eifion Roberts, a'i wraig Gwyneth yn digwydd bod gartref ar eu gwyliau a chafwyd cyfraniadau dymunol iawn gan Nia a Sioned eu dwy ferch fach. Cafwyd darlleniadau a gweddïau gan Trystan Thomas, ac Euron Thomas. Derfel cefnder Nia a Sioned oedd casglwr y rhoddion. Rhoddodd Mrs M. Bryn Hughes anerchiad fer i'r plant. Diolchwyd i bawb gan Mr Eurwyn Jones, Tawel Lan. Y cyfeilydd oedd Mr Aled Owen.

GWYDOBAETH DEITHIOL: Ers blynyddoedd bellach y mae Gillian, merch Mrs Betty Williams, a'r diweddar Gynghorydd Trefor Williams, 4 Coed-y-glyn yn gweithio gyda chwmni sydd yn trefnu teithiau yma ac acw ar draws y byd. Dros y misoedd diwethaf yma mae Gillian wedi bod yn astudio agweddau gwledydd Ewrop ac ym Manceinion ychydig wythnosau'n ôl bu'n sefyll arholiad a bu'n llwyddiannus i ennill y dystysgrif – A.B.T.A. Llongyfarchiadau i chi Gillian.

DYWEDDÏO: Llongyfarchiadau calonnog iawn i Carys Ann, merch Mr a Mrs Selyf Noel Hughes, Tan Dderwen, a Richard, mab hynaf Mr a Mrs D. Fellows, 9 Moorlands Road, Dewsbury, Swydd Efrog.

PEN-BLWYDD: **Annie Wheldon-Jones:** Llongyfarchiadau calonnog iawn i Mrs Annie Wheldon Jones, Maes Padarn ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Un o gymeriadau tawel a dymunol iawn yr ardal hon yw Mrs Jones, yn gymydog diffuant ac yn aelod ffyddlon iawn yng Nghapel Coch tra bu'r iechyd yn caniatau hynny. Bendithiwyd hi â thri o blant, y rhai fu'n gysur mawr iddi ar ôl colli ei phriod, Edwin rhai blynyddoedd yn ôl. Tua blwyddyn neu ddwy yn ôl collodd ei hunig fab Cledwyn a bu hyn yn ergyd drom iawn i'w chario, a gadawodd y golled graith ddofn. Ond, diolch i drefn yr Hollalluog daeth Eirlys ei merch hynaf i'r adwy, ac mae wedi gofalu yn dyner ac annwyl iawn am ei mam hyd y dydd hwn. Bendithir hi am ei gofal tyner.

Dymunir hir oes a dedwyddwch i Mrs Annie Wheldon Jones, a hwyrach y cawn ddathlu ei phen-blwydd yn 100 oed.

**Lily Jones:** Llongyfarchiadau calonnog iawn i Mrs Lily Jones, 3 Glanrafon Bynglos ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Cafodd lu o gardiau, llythyrau ac anrhegion gan gyfeillion, cymdogion a theulu.

Cafodd ddiwrnod pen-blwydd hapus iawn, a dymunir iddi lawer blwyddyn ddedwydd eto.

**Mrs Ada Mordig Roberts:** Yn ddiweddar bu Mrs Ada Mordig Roberts, gynt o 46 Maes Padarn yn dathlu eu phen-blwydd yn 80 oed yng nghartref ei mab yn y Fflint.

Gorfu i Mrs Roberts adael yr ardal oherwydd roedd ei golwg yn pallu, ac yn awr mae wedi ymgartrefu yn y



Fflint. Pan yma yn yr ardal roedd yn aelod ffyddlon iawn yn Eglwys Nant Padarn lle magodd ei bechgyn a'u meithrin yn y pethau gorau. Mae'n cael cwmni ei meibion yn gyson iawn, a phleser mawr ganddi yw iddynt ddarllen 'Eco'r Wyddfa' iddi gael hanes ei hen gyfeillion a'i chymdogion.

Bu'n dathlu ei phen-blwydd gyda pharti mawr, ei meibion a'r holl wyrion yn mwynhau diwrnod bythgofiadwy. Mae cofion ei holl gyfeillion yn Llanberis â hi – a dymuniad iddi am lawer blwyddyn ddedwydd eto.

YN DAL I REDEG:

Dal i redeg yn llwyddiannus iawn mae Paul, Linda a Kevin, plant Mr a Mrs John Prydderch.

Yn ystod y mis diwethaf mae'r tri wedi rhedeg yn ras Beddgelert, Ras Capel Curig a Ras Fawr yr Wyddfa.

Ym Meddgelert: dan 14 oed, daeth Paul yn gyntaf. Dan 11 oed daeth Linda yn gyntaf. Yng Nghapel Curig: Daeth Paul a Linda yn gyfartal gyntaf a thorri'r record. Ras yr Wyddfa: Dan 12 oed: Paul yn gyntaf, Dan 12 oed Linda yn gyntaf, Kevin Dan 18 oed yn ail.

Ardderchog iawn – daliwch ati, rydych yn dod â chlod mawr i Lanberis.

GRADDIO: Dylai Mrs Nancy Jones, gweddw'r diweddar Emrys Jones, Llaingwen gynt, fod yn nain eithriadol o falch yn llwyddiant ei hwyrion – mae tri ohonynt wedi graddio gydag anrhydedd. Gan Hugh Emrys ei mab sydd yn athro yn Lloegr mae dau fab – Gwyn David sydd wedi graddio yn y Brifysgol ym Mangor. Yna mae'r ail fab, Timothy, wedi graddio ym Mhrifysgol Birmingham.

I'w merch a'i phriod Mr a Mrs Vincent Owen, 43 Dol Elidir, mae un mab, Kevin, ac mae yntau wedi graddio ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Ardderchog iawn wir – hapus iawn yw cofnodi newyddion da fel hyn.

DIOLCH: Dymuna teulu'r Frenhines Sharon – Carnifal 1983 – ddiolch i Bwyllgor y Carnifal i'r cymdogion a'r cyfeillion a fu mor garedig gyda'u rhoddion i Sharon ar achlysur ei choroni.

CYMORTH CYNTAF: Mae aelodau'r Gymdeithas Cymorth Cyntaf wedi bod yn dra gweithgar drwy'r flwyddyn ac maent wedi bod yn llwyddiannus mewn gwahanol arholiadau:

**Dyma'r canlyniadau: Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (Hyfforddiant arbennig):** Stanley Wyn Griffith, Gwilym Owen, Arwel Roberts, Maldwyn Lewis, Norman Jones, Gareth Jones, Elizabeth A. Owen, Brenda Roberts. **Arholiadau Oedolion:** Hugh Curig Owen, Mair Wyn Davies, Iona Jones, Bethan Wyn Jones, Dorothy Jones, Elizabeth A. Parry. **Y Cadlanciau:** Allan Ellis, Darrell Griffiths, Hugh Harris, Eifion Griffiths, Andrew Griffiths, Ian Hughes, Gareth W. Owen, Dylan Parry, Karl Roberts, Colin Saynor, Terry Saynor, Ann V. Evans, Gillian Jones, Alison Jones, Marickee Latham, Rhian Lloyd, Sian Lloyd, Christine Pitts, Catrin Lloyd Roberts, Lisa Rudkin, Vanessa Warren. **Y Dosbarth Ieuengaf:** Euron Haines, Trystan Thomas, Llifon Foulkes, Neil Owen, Marc Williams, Colin Frazer Owen, Cai Lloyd Williams, Derfel Owen, Geraint Thomas, Nia Hughes, Cathy Jones, Lisa Jones, Hannah Rudkin, Carys Williams. **Y Merched mewn Ichydiaeth:** Ann V. Evans, Gillian V. Jones, Alison Jones, Rhian Lloyd, Catrin Lloyd Roberts, Lisa Rudkin, Vanessa Warren.

Yn ystod y flwyddyn mae'r oedolion wedi rhoddi oriau lawer o wasanaeth gwirfoddol mewn gwahanol gylchfannau.

Mae un ar bymtheg o'r aelodau wedi mynd i wersylla yn Westoning, Bedfordshire.

DIOLCH: Dymuna David ac Elaine Evans, Plas Coch ddiolch i ffrindiau, perthnasau a chymdogion am y cardiau a llu anrhegion ac arian a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab, Marc Antony.



EI GYFLWYNO I'R TYWYSOG:

Dyma lun o Cyril Jones, Ael-y-Bryn, Stryd Newton, Warden Parc Cenedlaethol Eryri yn cael ei gyflwyno i'r Tywysog Charles yn Llandanwg ger Harlech yn ystod ymweliad y Tywysog â Gwynedd yn ddiweddar.

Roedd yr hen eglwys fach yn Llandanwg a godwyd yn y 6ed Ganrif bron yn mynd o'r golwg gan dywod y môr. Bu'r gwirfoddolwyr yn gweithio'n galed i godi cloddiau a phlannu glaswellt i geisio atal y tywod, ac edmygodd y Tywysog yr holl ymdrechion a wnaed.

Yr un diwrnod cafodd mam Cyril, Mrs R. Jones, Penlon gynt ei chyflwyno i'r Tywysog yng Nghaernarfon.

*(Parhad ar y dudalen nesaf)*

**E.W.Pritchard**

**CENTRAL GARAGE**

**Llanberis**

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

CEIR AR GYFER PRIODASAU

GWASANAETH TACSI

# LLANBERIS (parhad)

LLONGYFARCHIADAU: i rai o blant yr ardal a fu'n llwyddiannus gyda'r Arholiad Lefel 'A' eleni. Maent i gyd wedi ennill safle yn yr arholiad.

CLWB CAMERÂU LLANBERIS:

Mae llawer iawn o'r ardalwyr yn cymryd diddordeb eithriadol mewn tynnu lluniau gyda'r gwahanol mathau o gamerâu sydd ar y farchnad heddiw. Bydd y Clwb lleol yn dechrau sesiwn y gaeaf nos Fawrth Medi 20 yng Ngwesty'r Prince of Wales. Bydd y llywydd, Mr Torr yn rhoi braslun o weithgareddau'r clwb yn ystod tymor y gaeaf, amlinelliad o'r cystadlaethau arddangosfeydd ac anerchiadau gan arbenigwyr ym myd y camera. Mae llawer o lanciau ifanc iawn yn ymddiddori yn yr hobi yma. Y llynedd cafodd William Gartside, mab 15 oed i Mr Robert Gartside, Y Ffelyffydd lleol y prif wobr i ieuenctid dan 18 oed dan adran 'The North Wales Photographic Federation'. Fe wneir apêl arbennig am aelodau newydd i'r clwb, hen ac ifanc, bydd croeso mawr iddynt.

Bydd Clwb Camerâu yn dechrau yn y Llyfrgell yng Nghaernarfon am 8 o'r gloch nos Lun, Medi 19.

PWYLLGOR CARNIFAL: Dymuna Pwyllgor Carnifal Llanberis ddiolch i'r nifer bobl ac i'r mudiadau a fu mor barod i roi eu hamser a'u cefnogaeth i wneud y Carnifal yn llwyddiant unwaith eto eleni. Diolch hefyd i'r pentrefwyr a gefnogodd y gwahanol gystadlaethau. Hebddynt ni fyddai Carnifal.

Y CARNIFAL:

**Gyrfa Chwist:** Raffl: Mrs D.S. Owen, Mrs Enfys Parry, Mr H.C. Owen. **Gwobrau:** Mrs Maureen Lennon, Mrs Rona Thomas, Mrs D.A. Owen, Mrs Laura Owen, Mrs K. Owen, Mrs Sue Lowe, M rs Dwynwen Roberts, Mr Geraint Owen. **Bwbi:** Mrs Hughes, Y Felinheli, Miss Julia Owen. **Knock-out:** Mrs Hughes, Mrs M. Ellis.

**Bingo: Llinell:** Mrs D. Evans, Maes Padarn, Miss Gwyneth Jones, Y Llythyrdy, Mrs Netta Jones, Stryd Fawr, Mrs Mair Jones, Maes Padarn, Mrs Griffiths, Maes Padarn, Mrs Katie Owen, Dôl Eilian, Mrs Ann Roberts, Maes Padarn (yr oll o Lanberis). **Tŷ:** Mrs Bet Hughes, Stryd yr Wyddfa, Mrs Jean Roberts, Stryd Goodman, Mrs Gwen Jones, Maes Padarn, Mrs Iona Jones, Stryd Goodman, Mrs Delyth Roberts, Maes Padarn, Mrs Catherine Williams, Rallt Goch, (yr oll o Lanberis).

**Cystadleuaeth Dartiau a gynhaliwyd yng Ngwesty Dolbadarn: Enillwyr:** 1. Gwilym Williams, Cwm-y-glo. **Dynion:** Eifion Jones, Cwm-y-glo. **Merched:** 1. Margaret Jones, Llanberis, 2. Jean Evans, Llanberis.

**Cystadleuaeth Pŵl a gynhaliwyd yng Ngwesty Tywysog Cymru: Enillwyr:** Prince of Wales. **Ail:** Padarn Lake. **Perfformiwr gorau:** Douglas Ellis. **Canolwr:** Mr A. Ashcroft, Bontrug.

**Enillwyr y Wisg Ffansi: Dan 3 oed: Unrhyw wisg:** 1. Lester Piggot – David Sellers. 2. Ladybird: Aled Jones, 3. Scotsman: Rheon Roberts. **3-5 oed: Cymeriadau Adnabyddus:** 1. Sion Corn: James Stott, 2. Aladdin: Edryd Sharp, 3. Hiawatha: Carys Reynolds. **3-5 oed, Gwisg Hysbysebu:** 1. Fox's Mints: Ian Ellis, 2. Hula Hoops: Llinos a Lliwen Hughes, 3. Maltesers: Aled Hughes. **5-7 oed, Cymeriad Adnabyddus:** 1. Steve Davies: Jason Bayliss, 2. Little Bo Peep: Janice Hughes, 3. Count Dracula: Rheon Wyn Roberts. **6-7 oed: Gwisg Hysbysebu:** 1. Liquorice Allsorts: Colin Ellis, 2. Milky Bar Kid: Paul Fleming, 3. Crest Toothpaste: Sam Williams. **7-9 oed: Cymeriadau Adnabyddus:** 1. E.T. – Dylan Davies, 2. Nora Batty: Nicola Bayliss, 3. Miss Muffet: Llinos Wyn Jones. **7-9 oed, Gwisg Hysbysebu:** 1. Welsh Tourist Board: Marc Ellis, 2. Bandit: Ken Jones, 3. Kia Ora: Mark Anthony. **9-12 oed, Unrhyw Wisg:** 1. Maggie a Dennis: Gareth Prydderch a Gareth Williams, 2. Laurel & Hardy: Edward R ac Anthony Roberts, 3. Tramp: Chris Hughes. **12-16 oed: Unrhyw Wisg:** 1. Dulux: Nicola Prydderch ac Andrea Roberts, 2. Andrex:?
3. Punk: Kevin Roberts.

**Cymeriadau Unigol Gorau o'r enillwyr uchod:** Welsh Tourist Board – Ddraig Goch – Marc Ellis.

**Dros 16 oed, Unrhyw Wisg:** 1. Farley's Rusk: Gareth Jones, 2. Andy Pandy: Linda Owen, 3. Salad: Lynne Ellis. **Agored. Dan 9 oed. Unrhyw Wisg:** 1. Knit Wit: Iola Non Thomas, Llanrug.

**Tablo Stryd ar Olwynion: Agored:** 1. Arch Noa – Maes Padarn. 2. Hugan Fach Goch – Agored. 3. Banc y Midland – . **Grŵp Gorau ar Droed:** 1. Boys from the Blackstuff. **Pâr Digrif:** 1. Tart & Cream: Nia Thomas ac Alison Edwards. **Pram wedi ei addurno:** 1. Delwen Haf: Delwen Haf Williams. 2. Silent Night-Andy Pandy. 3. Claudette Lorin, Darren Owen. **Beic wedi ei addurno:** 1. David Humphreys, 2. Samantha Lowe, 3. Llinos Wyn Jones, 4. Sam Williams. **Gwobr Arbennig: Tablo Stryd ar Olwynion: Llanberis yn Unig:** 1. Arch Noa – Maes Padarn. **Enillwyr Dawnswyr: Majorettes:** Deiniolen Dinkies – Enillwyr y Darian.

**Mabolgampau – Ddôl y Goeden – Babanod, 2-3 oed, Dosbarth Mrs Gwen Hughes:** 1. Sarah Jones, 2. Edryd Sharpe, 3. Mark Boswell. **Dosbarth Meithrin Dolbadarn: Genethod:** 1. Danielle Merthyr, 2. Meinir Roberts, 3. Nicole Hughes. **Dosbarth Meithrin Dolbadarn: Bechgyn:** 1. Llifon Wyn Owen, 2. James Stott, 3. Owain Gethin Jones. **Dosbarth 1af Dolbadarn, genethod:** 1. Mannon Ll. Williams, 2. Angela Willis, 3. Carys Reynolds. **Dosbarth 1af Dolbadarn, bechgyn:** 1. Eruon Wyn Davies, 2. Mark Penny Newton, 3. Kevin Carr. **Dosbarth 2il Dolbadarn, genethod:** 1. Sandra Jane Nesbet, 2. Angela Vaughan Williams, 3. Elaine Bee. **Dosbarth 2il Dolbadarn, bechgyn:** 1. Colin Ellis, 2. Hugh O'Donell, 3. Sam Williams. **Dosbarth 3ydd Dolbadarn, genethod:** 1. Catherine Walker, 2. Nicola Medford, 3. Ann Maxwell Hughes. **Dosbarth 3ydd Dolbadarn bechgyn:** 1. Iestyn Pritchard, 2. Alwyn Thomas, 3. Dylan Davies. **Safon 1af Dolbadarn, genethod:** 1. Llinos Wyn Jones, 2. Miriam Thomas, 3. Rhian Roberts. **Safon 1af Dolbadarn, bechgyn:** 1. Steven Bayliss, 2. Ian Hughes, 3. Steven Nesbet. **Safon 2 a 2-3 Dolbadarn, genethod:** 1. Lynne Davies, 2. Linda Prydderch, 3. Annette Sellers. **Safon 2 a 2-3 Dolbadarn, bechgyn:** 1. Alun Bayliss, 2. Cai Williams, 3. Trystan Rees. **Safon 3ydd Dolbadarn, genethod:** 1. Jennifer Claridr, 2. Lynne Jones, 3. Julie Bayliss. **Safon 3ydd Dolbadarn, bechgyn:** 1. Simon Williams, 2. Marc Williams, 3. Daryl Griffith. **Safon 4ydd Dolbadarn, genethod:** 1. Samantha Lowe, 2. Bethan Owen, 3. Wendy Rowlands. **Safon 4ydd Dolbadarn, bechgyn:** 1. Jonathan Cousins, 2. Aled ap Deryl, 3. Robert Gray Williams. **Ysgol Brynrefail**

**Doasbarth 1af: genethod:** 1. Alice Jones, 2. Nia Owen, 3. Diane Jones. **Bechgyn:** 1. Andrew Griffith, 2. Gareth Wyn Owen, 3. Peter Glyn Hughes. **Dosbarth 2il, genethod:** 1. Alison Edwards, 2. Andrea Roberts. **Bechgyn:** 1. Ian Evans, 2. Dylan Roberts, 3. Victor Parry. **Rhwng 13-14 oed, genethod:** 1. Petula Williams. **Rhwng 13-14 oed, bechgyn:** 1. Hayden Jones, 2. Niel Jones, 3. Daren Roberts. **14-16 oed, genethod:** 1. Carol Prydderch a Helen Thomas. 2. Irene Evans. **Bechgyn:** 1. Steven Thomas, 2. Colin Saynor, 3. Peter Williams. **100 llath agored:** 1. Dolbadarn, 1. Aled ap Deryl, 2. Jonathan Cousins. Brynrefail: Steven Thomas, Gabut Griffith. **100 llath dynion dros 30 oed:** 1. Dickie Jones, 2. Lal Jones. **100 llath merched dros 16 a than 30 oed:** 1. Jane Pritchard, Michelle Thomas. **100 llath, merched rhwng 30 a 40 oed:** 1. Carys Ll. Williams a Catherine Bee. **100 llath, merched dros 40 oed:** dim cystadleuwyr. **Rhedeg milltir, agored:** 1. Kevin Prydderch, 2. Michael Roberts, 3. Martin McQuenie. **Ras drithroed: Ysgol Dolbadarn:** 1. Jennifer Clarida a Lynne Jones, 2. Barry Jones ac Andrew Owen, 3. Simon Williams a Julie Bayliss. **Ras drithroed, Ysgol Brynrefail:** 1. Alison Edwards ac Elen Mai Pritchard, 2. Nia Owen a Diane Jones, 3. Paul a Jason Roberts. **Ras drithroed, merched, agored:** 1. Mair Watkinson a Menna Jones, 2. Vivian Thomas a Mary Carr, 3. Christine a Carol Owen. **Ras Tîm o Bedwar, Agored, genethod: Ysgol Dolbadarn:** 1.Jennifer Clarida, Bethan Wyn Jones; Bethan Wyn Owen a Lynne Jones. **Bechgyn:** 1. Jonathan Cavin a Barry Jones, Aled ap Deryl, Paul Prydderch. **Brynrefail:** 1. Petula Williams, Helen Thomas, Carol Prydderch ac Irene Evans. **Bechgyn:** 1. Steven Thomas, Iwan Pritchard, Ian Edwards a Colin Saynor. **Ras araf beic: Ysgol Dolbadarn, genethod:** 1. Lynn Jones, 2. Wendy Rowlands, 3. Jennifer Clarida. **Bechgyn:** 1. Darren Ellis. **Ysgol Brynrefail:** 1. Alison Edwards. **Bechgyn:** 1. David Evans, 2. Peter Williams. **Ras Gyflym Beic, Merched: agored:** 1. Petula Williams. **Ras gyflym beic, dynion, agored:** 1. Nigel Rowlands.

# YMFUDO



Wedi darllen erthygl Alys Eileen Williams o Frynrefail am ei thaith yn Awstralia, daeth Mrs R.H. Owen, Wyddfyd, Stryd Fawr, ar draws yr hen lun yma. Dyma'r teulu bach cyntaf i ymfudo o Frynrefail i Awstralia a gwelir Alys yn sefyll tu ôl i 'Myfanwy o'r Bryn' wrth iddynt ffarwelio â'r teulu, Jennie Arfon ac Owen Nanur ar Stesion Cwm-y-glo. Llun wedi ei dorri o'r 'Cymro ' mae'n debyg yw'r uchod. **Dyma beth sydd wedi ei ysgrifennu oddi tano "Ar y tren hanner dydd o Gaernarfon ddydd Mawrth ymfudodd Mr a Mrs Owen Nannau Jones, Cwm-y-glo gyda'u plant Shon (3 oed), Heddwyn (7 oed) ac Einir (11oed) i Awstralia. Daeth ffrindiau i'r orsaf i ffarwelio a hwy". Nid oedd dyddiad. Diolch i Mrs R.H.Owen am roi benthyg y llun i'r Eco.**

DIOLCH: Dymuna Mrs J.M. Jones, 81 Maes Padarn ddiolch o galon i ffrindiau, perthnasau a chymdogion am bob caredigrwydd, cardiau a rhoddion a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod gartref. Hefyd diolch i feddygon a gweinyddesau Ward Llawfeddygol Isa Ysbyty Môn ac Arfon ac Ysbyty Eryri.

DIOLCHIADAU: **Evie Parry:** Dymuna Evie ac Eurwen Parry, 2 Teras York ddiolch o galon i bawb o'u perthnasau, cymdogion a chyfeillion am eu caredigrwydd a'u haelioni i Evie tra bu'n yr ysbyty ym Mangor.

**Derfel:** Dymuna teulu Derfel, 9 Stryd yr Wyddfa ddiolch i holl drigolion Llanberis a'r cylch am eu caredigrwydd i Derfel ar achlysur Carnifal 1983.

**Geraint:** Dymuna Gwynfryn ac Alwena, 8 Rock Terrace ddiolch o galon i bawb o'u perthnasau, cymdogion a chyfeillion a staff Ysbyty Eryri Caernarfon am eu caredigrwydd i Geraint eu mab hynaf pan fu'n yr ysbyty yn derbyn triniaeth, hefyd am y rhoddion a'r llu cardiau a gafodd.

YSGOL DOLBADARN: Tripiau Ysgol: a) Safon 4 a rhai o Safon 3 – treulio 3 diwrnod yng Nghaeredin. Galw heibio Windermere a Gretna Green ar y ffordd. b) Dosbarthiadau Meithrin ac 1 i Dinas Dinlle am y diwrnod. c) Dosbarthiadau 2 a 3 i Sŵ Bae Colwyn am y diwrnod.

2. **Gala Nofio. Daeth yr ysgol yn drydydd allan o 9 ysgol oedd yn cystadlu.**

3. Bathodynnau Nofio.

4. Llyfrau Cymraeg – Christine Pitts a Hannah Rudkin – y ddwy wedi gwerthu mwyaf o lyfrau.

5. Samantha Lowe – cynnydd gorau yn y Gymraeg yn Safon 4 eleni.

6. Ffarwelio â phawb o safon 4, dymuno pob llwyddiant iddynt yn y dyfodol, yn eu hysgolion newydd.

**Enillwyr Bathodynnau Nofio**

**Dysgwyr:** Steven Hughes, Trefor Roberts, Tristan Rees, Andrew Guy, Gareth Lucas, Sharon Roberts, Marc Bourne, Bethan Jones, Michelle Willis, Emma Griffiths, Michell Carr, Owain Tudur Davies, Steven Nisbet, Shane Price, Angharad Rudkin, Carys Hughes, Patricia Jones, Llinos Wyn Jones, Olwen Harris, Dylan Davies., Heidi Upward.

**10 Medr:** Jason Jones, Derfel Owen, Arfon Owen, Miriam Thomas, Carys Owen, Kathy Jones, Dylan Williams, Elwyn Ffoulkes, Kevin Edwards, Sally Owen, Alan Pritchard, Becky Parr, Eilian Roberts, Lisa Jones, Llifon Ffoulkes, Glenda Jones,

**20 Medr:** Hayley Griffiths, Aled Hughes, Llion Hughes, Neil Owen, Marieke Latham, Einir Thomas, Gwenlli Davies, Eilian Roberts, Faün Clarida, Ruth Cousins, Nicola Baylis, Debbie Hughes, Karen Price, Geraint Evans, Annette Sellars, Linda Prydderch.

**50 Medr:** Joanne Lloyd, Lyn Davies, Bruce Turner.

**100 Medr:** Nia Wyn Roberts, Darryl Griffiths, Lyn Jones

**200 Medr:** Stephen Baylis, Cai Williams, Ann Baylis.

**400 Medr:** Nerys Hughes, Christine Pitts.

**600 Medr:** Bryn Lloyd Roberts, Jennifer Clarida.

**1,000 Medr (Tystysgrif):** Simon Williams, Trystan Thomas, David Griffith, Richard Parry.


Y Bistro

45 Stryd Fawr
LLANBERIS

*Ffôn: LLANBERIS 871 278*

(Danny a Nerys Roberts)

**Pryd gorau'r fro**

# Ym myd yr adar

### gyda Ieuan Williams

**Pwysleisiaf ar ddechrau'r erthygl hon nad yw pethau'n mynd fel yr hoffai'r adarwr pob amser, gan fod gan yr adar a natur eu meddyliau eu hunain yn aml a gwell ganddynt ddilyn y rhain na syniadau mympwyol dynion. Felly, "theori" yn unig yw llawer o'r hyn sy'n dilyn - hollol groes sy'n digwydd yn aml. Digwyddodd hyn i mi'n bersonol eleni gan i mi gael y tymor magu salaf erioed.**

Pwysleisiaf hefyd fod llawer ffurf ar ddarparu ar gyfer y tymor magu, ac mae gan pob adarwr ei syniadau bach ei hun, ond gobeithiaf roddi braslun go wastad o'r tymor.

I'r rhai sy'n magu Budgies dechreuir y tymor magu ychydig ddyddiau cyn Nadolig. Mae dau reswm am hyn. Y cyntaf yw fod tymor magu y Budgie yn ei gynefin yn Awstralia yn cyd-redeg â'n gaeaf ni yn y wlad yma, a'r syniad yw fod cylch magu naturiol yr adaryn yn well heb ei darddu. Y rheswm arall - a'r un pwysicaf a nes at y gwir - yw ceisio cael cywion yn gynnar fel eu bod yn barod i gystadlu ar eu gorau yn y sioeau cynnar yn ystod Awst a Medi.

Daw'r wy cyntaf ymhen rhyw ddeg diwrnod ar ôl cyflwyno'r pâr i'w gilydd a daw'r wyau canlynol bob yn ail ddiwrnod. Bydd yr iâr yn gori ar yr wyau am 18 diwrnod, ac mae'n dilyn felly, os oes wyth wy yn y nythiad y gall cymaint a phythefnos o wahaniaeth fod yn oed y cywion. Bwydir hwy'n ofalus â llaeth a gynhyrchir gan y fam, a byddant yn ddibynnol ar eu rhieni am ryw wythnos ar ôl gadael y nyth pryd y dechreuant fwyta bara-llefrith a hadau drostynt eu hunain.

Rhoddir bocs iddynt nythu ynddo, rhai eithaf tebyg i'r rhai a roddir yn yr ardd ar gyfer y titw tomas, gyda thwll yn agos i'r top. Nid oes angen dim ar gyfer y nyth gan fod yr iâr yn dodwy ar y pren noeth.

Os am gystadlu gyda'r cywion, yna mae'n anhepgor ymuno ag un o'r cymdeithasau sydd â hawl ganddynt i gynhyrch modrwyon fel y gelli'r gweld ar y fodrwy beth yw oed yr aderyn. Mae'n angenrheidiol rhoddi'r fodrwy ar goes y cyw pan mae'n rhyw bump oed, gan ei bod yn amhosibl gwneud ar ôl hynny gan y bydd ei droed yn rhy fawr i fynd drwyddi.

Nid oes angen modrwy ar goes y caneri er bod mwy o drafferth i'w fagu. Bydd y tymor yn dechrau gryn dri mis yn hwyrach na thymor y Budgies. Anelir at ollwng y ceiliog a'r iâr penodol at ei gilydd yn ystod dyddiau cyntaf Ebrill, gan osod powlen bwrpasol yn y cawell ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, gyda gwair crin, mwsagl, gwlân, a phethau tebyg, fel y gall yr iâr adeiladu ei chartref o fewn y bowlen. O fewn deg diwrnod i bythefnos dylai'r wy cyntaf ymddangos. Yn wahanol i'r Budgie daw yr wyau yn ddyddiol, a cheir pedwar yn y nythiad ar gyfartaledd, er nad yw chwaeth yn anarferol iawn. Tynnir y tri wy cyntaf gan yr adarwr gan roddi wy tegan yn eu lle, ac yna dychwelyd y cwbl gyda'i gilydd. Y rheswm am hyn yw ceisio deori o fewn ychydig oriau i'w gilydd fel bod y cwbl yn cael yr un chwarae teg, gan fod tueddiad gan lawer o'r adar fwydo'r cywion cryfaf, ac o ganlyniad mae'r gwahaniaeth rhwng y rhai hynaf (a'r cryfaf) a'r rhai ieuengaf (a'r gwanaf) yn mynd yn fwy fel yr heneiddia'r nythiad ac yn aml y rhai lleiaf yn llwgu. Bydd yr iâr yn eistedd am 13½



*Iâr caneri yn eistedd ar ei nyth mewn powlen. Bydd yn gori ar yr wyau am 13½ diwrnod.*

diwrnod cyn deori'r cywion, a byddant yn y nyth am tua 18 diwrnod cyn mentro ar goesau ac adenydd sigledig i weld y byd ym mhen arall y cawell pedair troedfedd. Dibynant ar y rhieni am rai dyddiau wedyn ond o dipyn i beth dysgant fwyta eu hunain. Mae'r amser yma yn un prysur eithriadol i'r adarwr brwdfrydig gan fod yn rhaid iddo forol am ddigon o amrywiaeth i'r rhieni fagu eu hepil. Rhai o'r bwydydd a gynigir yn ystod yr amser yma yw bara llefrith, wyau wedi eu berwi'n galed ac yna eu malu yn fân, amrywieth o fwydydd a geir yn y fferyllydd ar gyfer plant bach, pob math o blanhigion sy'n cynhyrchu hâd, blodau a dail gwlydd y dom (chickweed) a "thunelli" o hadau dant y llew a geir yn y blodyn cyn iddo droli'n "gloc". Y rhain i gyd yn ogystal â bwydydd arferol wrth gwrs. 'Does fawr o "spring cleaning" yn mynd ymlaen yn nhai adarwyr gellwch fentro!

I'r rhai sy'n arbenigo mewn adar tramor ac adar brodorol mae'r tymor yn dechrau dipyn yn hwyrach ac yn mynd ymlaen i fis Awst ac weithiau i fis Medi. Anodd yw tynnu elfen o greadur er ei fod wedi ei fagu dan reolaeth yr adarwr, ac ni ddaw'r Nico, er enghraifft, i gyflwr cymharu hyd ddiwedd Mai – yn union fel y rhai gwyllt. Mae'r siomedigaethau yn y ddwy adran yma yn ddi-ben-draw, ond pan ddaw llwyddiant mae'n werth chweil. Y gyrfinach yw ceisio creu awyrgylch wrth fodd yr adar ac yna llonyddwch, ond mae pawb yn chwylfrydig weithiau a gall fod yn ddigon i ddifetha darpariaeth blwyddyn. Fel gyda'r Budgies dylid modrwyo'r adar brodorol pan yn ychydig oed i brofi eu magu mewn caethiwed, ond eto gall hyn greu problemau gan fod yr iâr yn gweld y fodrwy am goes y cyw a'i thaflu allan (a'r cyw gyda hi, wrth gwrs).

Mae'r cyfnod o'r amser y daw'r cywion o'r nyth i'r amser maent yn hunan-gynhaliol yn un tyngedfennol a bydd llawer o golledion yn digwydd yn ystod y dyddiau hyn, felly rhaid bod yn wyliadwrus iawn fod y cewyll yn lân a'r bwyd bob amser yn ffres fel na fwyteir hen beth gan y gall hyn greu problemau yn y stumog.

Pan fydd y cywion yn ddeufis oed byddant yn dechrau bwrw eu plu a chymer hyn gryn ddeng wythnos i'w gwblhau. Mae pob aderyn yn mynd drwy'r broses yma unwaith yn y flwyddyn. Os oes gennych aderyn yn y tŷ yn bwrw ei blu'n amlach na hyn, yna mae rhywbeth yn bod arno. Mae'r amser yma yn un pryderus i'r adarwr gan y gellir cael colledion eto, yn enwedig ymysg adar mewn oed. Mae hefyd yn amser diflas iawn i'r adarwr gan fod popeth yn ddisymud braidd, ond pan ddaw'r plu newydd fe ŵyr ei dynged, mwy neu lai, yn ystod amser prysur a diddorol y cystadlu sydd yn ymestyn o'i flaen.

# BRYNREFAIL

LLONGYFARCHIADAU i Jinnie a Jeffrey Williams, Bryn Melyn ar ddathlu deugain mlynedd o fywyd priodasol – ar yr achlysur arbennig derbyniasant lu o anrhegion a chardiau a dymunent ddatgan eu diolch i'r teulu a'r holl gyfeillion. Croeso arbennig i'w mab Bryn sydd gartref o'r Unol Daleithiau i ddathlu priodas Ruddem (Ruby) ei rieni.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Dim ond criw bach daeth ynghyd yn Nhŷ Glas yng nghyfarfod mis Gorffennaf, ond cafwyd noson ddiddorol yn trafod gweithgareddau'r sefydliad a "rhoi'r byd yn ei le". Rhoddwyd anrheg y mis gan Carol Houston ac fe'i enillwyd gan Mrs H.J Jones, a oedd hefyd yn gyfrifol am y te gyda Mrs Val Davies.

PROFEDIGAETH: Er bod peth amser wedi mynd heibio ers marwolaeth Mrs Margaret Jones, 1 Tremeilian, daeth y newyddion yn rhy hwyr i'r rhifyn diwethaf o'r 'Eco'. Mae'n cydymdeimlad yn fawr gydag Elwyn, y plant, a'r teulu oll. Fe gofiwn am Margaret fel cymeriad hoffus dros ben, bob amser yn siriol ac ymroddgar.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Seth a Liz Thomas, Creigle, ar enedigaeth eu baban cyntaf, – geneth fach. Llwyddiant yng Ngholeg Tecnegol Gwynedd, Bangor cyflwynwyd Janet Elizabeth Jones, 5 Tremeilian a Thystysgrif MSC-NTI gyda chanmoliaeth mewn gwaith academaidd ac ymarferol. Bydd Janet yn dychwelyd i'r coleg ym mis Medi.

CLWB PEDWARUGAIN: enillwyr misoedd Mehefin a Gorffennaf. Mehefin 3 – 1. Alwyn Roberts, 2. Eirlys Williams, 3. Mrs Mowll (Penisarwaun). Mehefin 10: 1. Liz Thomas, 2. Eifion Roberts, 3. Eurwyn Williams. Mehefin 17: 1. Pat Mowll, 2. Audrey Roberts, 3. Dwynwen Owen. Mehefin 24: 1. Gwyn Hefin Jones, 2. Eluned Williams, 3. Shirley Roberts. Gorff. 1: 1. Betty Owen (Llwyncoed Bach), 2. Helen Jones, 3. Mr Mowll (Penisarwaun). Gorff 8: 1. Liz Thomas, 2. Meilir Roberts, 3. Jackie Jones. Gorff 15: 1. Dilys Jones, 2. Arthur Jones, 3. Pat Mowll. Gorff 22: 1. Eryl Davies, 2. Arthur Jones, 3. Rhian Jones. Gorff 29: 1. Lewis Esposito, 2. Gary Williams, 3. Audrey Roberts.

CLWB Y MAMAU: Yn Nhŷ Glas yng nghyfarfod mis Gorffennaf dan arweiniad Mrs Hasson, cafwyd noson ddifyr yng nghwmni swyddog o'r heddlu yn trafod ataliad troseddu. Rhoddwyd y te gan Pat Jones.

PRIODAS: Dydd Sadwrn, Gorffennaf 30 yng Nghapel Carmel MC Carmel priodwyd Aled, mab Mrs Megan Jones, Greuor Villa a Ceren Hughes, merch Mr a Mrs M. Hughes, Pennant, Frwd Cae Du, Llanwnda. Gweinyddwyd gan y Parch Stanley H. Williams, BSc. Maent wedi ymgartrefu yn Dwyryd, Glanrhyd, Llanwnda.

DIOLCH: Dymuna Aled a Ceren Jones ddiolch i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt ar achlysur eu priodas.


## BECWS DEINIOLEN
(D.E. & R.P. JONES)



Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

***Mwy o lyfrau difyr i'th helpu i wynebu'r hydref!**

**DEWCH I CHWARAE PÊL-DROED**
Geraint Jenkins — £1.65
Y llyfr hyfforddi pêl-droed cyntaf yn Gymraeg.

**DEWCH I CHWARAE TENIS**
Nia Wyn Williams — £1.65
Y llyfr hyfforddi tenis cyntaf yn Gymraeg.

**CAILO 3**
Dafydd Parri — £1.55
Y ci defaid mewn perygl difrifol.

**JOIO MAS DRAW**
Ieuan Rhys — £1.85
Jôcs, posau, cwisiau, cartwnau, gêmau, ac ati

**ACHUB CYMRU**
Heini Gruffudd — £2.95
Golwg ar gan mlynedd o ysgrifennu am Gymru.

**Sgorio Mil 7–YN Y WLAD**
**Sgorio Mil 8–YN Y BRIFDDINAS**
Catrin Stevens — 75c yr un
Y diweddara yn y gyfres boblogaidd sylwi a sgorio.

**IFAS Y TRYC**
Wil Sam — £1.85
Un o glasuron hiwmor Cymraeg yn ôl mewn print.

a

LOL

60c

Anfona am dy gatalog rhad 48-tudalen oddi wrth:
Y LOLFA, TALYBONT, CEREDIGION SY24 5HE
ffôn 097086/304

Y Lolfa

# LLANRUG

**Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)**

DIOLCH: Dymuna Mrs Betty Wyn Davies, 82 Pentre Helen, Deiniolen a Mrs Sarah Roberts, 13 Rhos Rhug, Llanrug ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli eu chwaer, Miss Katie Parry. Diolch hefyd am bob cyfraniad tuag at Gronfa Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon.

Dymuna Mrs Ceri Owen, 9 Hafan Elan ddiolch yn gynnes iawn i'r theulu, ei chymdogion a'i llu chyfeillion am y caredigrwydd mawr, y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn ystod ei harhosiad yn yr ysbytai, ac ar ôl dychwelyd gartref.

Dymuna Dr a Mrs Medwyn Williams, Llechwedd, Rhosbodrual, Caernarfon ddiolch o galon i'w perthnasau a ffrindiau ym mro'r Eco am y llu o anrhegion i Manon Awst.

Dymuna Mrs Jane Williams, Bryn Eifion ddiolch o galon i bawb am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei harhosiad yn yr ysbyty ac ar ôl dychwelyd gartref. Diolch yn fawr.

Dymuna Mrs J. Williams, 14 Hafan Elan ddiolch o galon i'w theulu, ei chymdogion a'r llu o ffrindiau o ardal Llanrug a Deiniolen am yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

HAFAN ELAN: Pnawn dydd Iau, Gorffennaf 25 aeth rhai o'r trigolion a chyfeillion o'r ardal ar wibdaith i weld Llyn Brenig ac yna treulio gweddill y diwrnod yn Y Rhyl. cafwyd amser rhagorol.

GWELLHAD BUAN: Mae Mrs Emrys Owen, Rhif 9 wedi bod dan driniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ar Arfon ac arholiad yn Ysbyty Eryri. Croesawn hi gartref fel cymdogion a dymunwn adferiad llwyr a buan iddi.

Da yw deall hefyd fod eraill o'n cymdogion a fu'n wael yn gwella'n foddhaol.

MARW: Dydd Llun, Awst 22 brawychwyd ni oll fel trigolion o glywed am farwolaeth sydyn un o'n cydmogion, sef Mrs M.M. Williams, Rhug. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth lem.

CLWB BLODAU'R GRUG: Gorffennaf 14 aeth aelodau'r Clwb ar eu taith flynyddol. Eleni, aethom i Langollen lle mwynhawyd cinio rhagorol yng ngwesty'r Bridge En, a gartref dros Fwlch yr Oernant ac ar hyd yr arfordir. Treuliwyd pnawn dymunol gyda phopeth yn ffafriol. Cynhelir cyfarfod o'r clwb yn y Sefydliad Coffa, Medi 8 am 2 o'r gloch.

ENNILL GRADD: Llongyfarchiadau i Gwyn Thomas, mab Mr a Mrs R.Ll. Thomas, Algwyn ar ennill gradd B.Ds Prifysgol Llundain yn Ysbyty Guy. Dymunir yn dda iddo yn ei swydd newydd fel llawfeddyg deintyddol yn Ysbyty Guy, Llundain.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr a Mrs R.H. Williams, Awel yr Hesg, Afon Rhos, a Mr a Mrs Gwilym Jones, Gorwel ar enedigaeth wyres, Manon Awst, i Dr a Mrs Medwyn Williams, Llechwedd, Rhosbodrual.

DYMUNIADAU GORAU: am adferiad llwyr a buan i Mrs Evans, Lloc, Mrs Roberts, Arwyn, Mrs Jane Williams, Bryn Eifion, Mr Hywel Pritchard, Snowdon View, Mrs Ceri Owen, 9 Hafan Elan, Mr T.W. Thomas, Berwyn, Mrs Mair Jones, Ogwen a Mr O.R. Parry, Y Storfa.

ENNILL GRADD: Llongyfarchir Karen Elizabeth, merch John a Morfudd Jones, Glyn Awel, Castell ar ennill gradd B.Sc. gydag anrhydedd mewn Bioleg. Dymunir pob llwyddiant iddi yn y dyfodol.

Y SEINDORF: Bu'r seindorf yn brysur drwy'r haf gyda bron bob dydd Sadwrn yn llawn. Dechreuasant ar eu gweithgareddau yng ngharnifal Bodedern, ac yna carnifal Llanrug, Bethel, Penisarwaun, Y Felinheli, Gellilydan, Llanfechell a Phorthmadog. Yng Ngwalchmai oedd y carnifal olaf ar ddydd Llun, Gŵyl y Banc.

Yn ystod Gorffennaf rhoddwyd cyngherddau ar faes Caernarfon ac ar lan y môr yn Llandudno. Cafwyd Helfa Drysor, a diweddu'r noson yng ngwesty Dolbadarn, Llanberis. Mr a Mrs Gareth Hughes oedd yr enillwyr.

Roedd cyngherddau mis Awst yng Nghricieth ar y 14eg, ac eto yn Llandudno ar yr 20ed a'r 27ain.

Enillwyr y pontwn: wythnos yn diweddu 2-7-84: Gareth Jones, 23-7-83 – Mrs Iola Butler, 13-8-83 – Mrs Gracie Thomas.

LLONGYFARCHIADAU: i'r Seindorf ar ddod yn ail yn Nosbarth B yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

BEICIO NODDEDIG: Ar nos Fawrth, Mai 24 ymgasglodd 22 o bobl o ardal Llanrug a Llanberis i ymgymryd â thaith Beic Noddedig i hel arian at Gronfa Ymchwil yr 'Ileostomy Association of Great Britain and Irlenad', ac fe gasglwyd y swm o £375 ynghyd â rhodd o £20. Cyflwynwyd cyfanswm o £395 i ysgrifennydd Adran y Gogledd yn Ysbyty Maelor Wrecsam, Gorffennaf 2. Cyflwynwyd siec o £1,500 ar ran yr Adran i'r trysorydd cyffredinol Mr Rodney Garrat, a ddywedodd mai dyma'r swm mwyaf iddo dderbyn oddi wrth unrhyw adran. Dymuna Eirwen Rowlands, Llys Forgan, Llanrug ddiolch o galon i'r rhai a gymerodd ran ac i'r rhai a gyfrannodd mor sylweddol.

MERCHED Y WAWR: Miss Mari Wyn Meredith fydd yn siarad am osod blodau yng nghyfarfod agoriadol y tymor a gynhelir am 7.30 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd, nos Fawrth, Medi 13. Croeso cynnes i aelodau newydd.

CASGLU AT Y BAD ACHUB: Mrs Pugh: £33.23; Mr Orritt: £4.21; Mrs Beryl Thomas: £6.03; Mrs Jane Jones: £12.66; Mrs P. Cooper: £11.24. Cyfanswm – £67.37.

**CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR CANGEN BRO LLEU**

Cynhleir prynhawn yng nghwmni Gwilym R. Jones a Mathonwy Hughes yn Neuadd Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes am 2 pm, ddydd Sadwrn Medi 17. Tâl mynediad 60c.


STORFA

Mace

O.R. & M. PARRY

Sgwâr Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael o fwydydd, llysiau a diodydd




*Parti Ysgol Llanrug a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth Ddawns Werin dan 15 oed yn Eisteddfod Genedlaethol Llangefni. Yn y llun hefyd mae eu hathrawon Mr E. Elias a Mrs M. Hughes.*

## YMDDEOLIAD ATHRAWES



*Mae Miss J. Jones, Ceunant wedi ymddeol fel athrawes ddiwedd y tymor diwethaf. Rhoddodd dros 30 mlynedd o wasanaeth yn Ysgol Gynradd Llanrug. Yn y gwasanaeth ddiwedd tymor cyflwynwyd siec a chadwyn aur iddi ynghyd â thusw o flodau fel arwydd o werthfawrogiad o'i gwasanaeth. Dymuniadau gorau iddi.*

**RHODD**

£5.00 i'r Eco. Er cof am dad a mam – William Thomas Jones a Mary Jones, Clwt-y-bont. Eu merch Dorothy, Caernarfon. Ein diolch iddi.


Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

*PEN CIGYDD Y FRO!*

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI!

CWMNI YSWIRIANT Y PRUDENTIAL CYF.

Y Cwmni Yswiriant sydd wedi bod yn rhoi gwasanaeth i bobol y fro ers tros 100 mlynedd

Dyma restr o'r goruchwylwyr yn y gwahanol bentrefi o'r fro:

LLANRUG, WAUNFAWR, CEUNANT, TAN-Y-COED a BETWS GARMON — GARETH JONES, Glyn Ceris, Waunfawr. (Ffôn Waunfawr 392)

LLANBERIS, NANT PERIS, CWM-Y-GLO, BRYNREFAIL a DINORWIG — WILLIAM ROBERTS, Hyfrydle Road, Capel Coch, Llanberis (870471)

DEINIOLEN, PENISARWAUN, SEION, LLANDDEINIOLEN, TREGARTH, M. LLANDEGAI — JOHN R. JONES, Clarke Terrace, Ffordd Llanberis, Caernarfon (4734)

RHOWCH GANIAD I'R 'DYN O'R PRW' YNGLŶN Â'CH HOLL ANGHENION YSWIRIANT

GWASANAETH AR EICH AELWYD

Prudential

# COFNODION O GYNGERDD YSGOL DOLBADARN – 1916

Tra'n chwilio a chwilota drwy hen bapurau newyddion cefais afael ar gopi o'r Herald Gymraeg Ebrill 11 1916, ac ynddo roedd cofnodion o un o hen gyngherdda Ysgol Dolbadarn. Os bu rhywun mewn breuddwyd a dychymyg y pnawn hwnnw y fi oedd y person hwnnw. Daeth llu o atgofion i fy meddwl – a'r caneuon a'r dawnsio a'r caneuon actol – a'r unigolion oedd yn cymryd rhan yr un noson â finnau. Sawl un ohonom sydd ar dir a byw erbyn hyn? Beth yw hanes y rhai ohonom sydd yn ffodus o gael troedio'r hen ddaear yma o hyd? Rwy'n siŵr y bydd y rhai y gwn i amdanynt yr un mor falch â finnau wrth ddarllen y Cofnodion.

**Anrhegu Plant yr Ysgol?:** Dydd Gwener yn y Concert Hall cynhaliwyd dau gyfarfod i wobrwyo'r plant. Roedd y neuadd yn orlawn prynhawn a'r hwyr, a bu raid cau'r drysau yn gynnar er cael trefn. Prif amcan y cyfarfod ydoedd rhoi symbyliad pellach i'r plant a'u rhieni gyda'r amcan o gael presenoldeb llawn yn yr ysgol, a thrwy hynny godi safon addysg.

Trefnwyd cyfarfod y prynhawn gan y Brifathrawes Miss L. Vaughan Williams, a gwelwyd yn eglur ôl llafur Miss Williams a'r athrawon eraill ar y dosbarthiadau ifanc hyn. Yr un modd gydag ysgolion y merched a'r bechgyn dan arweiniad y Prifathro Mr John G. Jones. Gwobrwyon y dosbarth cyntaf 100 y cant am bresenoldeb dros y flwyddyn: John Ellis Jones, Gwilym Owen Jones, John Trefor Williams, Jennie Thomas, Sydney Parry, Eira Gwyn Jones, Lizzie Ann Morris, Julia Owen, Lily Hughes.

**Gwobrwyon arbennig:** Francis Hughes yn y dosbarth cyntaf a Jennie Thomas Blaenyddol yn yr ail ddosbarth. Roedd y goreuon yn yr ysgol am ddysgeidiaeth, prydlondeb ac ymddygiad.

**Gwobrwyon yr ail ddosbarth:** (94 o gant am bresenoldeb): Idwal Davies, Cernyw Evans, Hughie Francis, Ceris T. Hughes, Lewis Jones, Ellis Morris, John Owen, Evan John Pritchard, John Llywelyn Roberts, Glyn Williams, Catherine Ann Gillespie, Jennie Hughes, Ella Hughes, Annie Jones, Elizabeth Morris, Grace Ann Moxen, Bertha Roberts, Gwen E. Toleman, Bessie Williams, Emlyn Rees Evans, Clifford Jones, Cecil Gwyn Jones, John T. Jones, Joseph W. Jones, Robert John Jones, David Owen, Cledwyn Pritchard, David John Roberts, Robert Austin Roberts, Emlyn Thomas, Peris Williams, Gladys Morris, Llewelyn Lloyd Williams, Dilys Roberts, Jennie Thomas, Hephzifah Williams, Rhys Owen, Meiriona Williams, Gracie Williams, Meira Bryn Roberts, Edwin Pryce Jones, Thomas R. Williams, Thomas Ifor Roberts, Hughie Pritchard, Thomas Alfred Pritchard, John Ellis Jones, John Gwilym Morris, Gwynfryn Lloyd Hughes (cafodd y bachgen bach yma ei alw adref y mis Tachwedd diwethaf).

**Cyfarfod yr Hwyr:** Cadeirydd – Mr Lewis Jones, Arweinydd – Mr T.L. Roberts.

Cafwyd cân gan Miss Lizzie Catherine Thomas, ac anerchiad gan y Parch Thomas Lloyd a'r Parch J. Evans Owen. Gwobrwywyd y canlynol am bresenoldeb gan Miss Foulkes, Erw Fair.

**Dosbarth Cyntaf:** Catherine Jones Williams, Owen Williams, Robert J. Jones, Mattie Roberts, Evan G. Jones, Mair Thomas, Irfon Gwyn Jones, Alun Evans, Donald Jones, Ceris ap Owen, Glyn Owen Griffith, Elizabeth Roberts, Lizzie Myfanwy Williams, John R. Roberts, Mary Williams, Mattie Foulkes, Katie E. Hughes, Annie Pritchard.

**Ail Ddosbarth:** Tommy Hughes, Annie L. Jones, Maggie O. Williams, Enid Mabel Thomas, Euronwy Roberts, Annie Toleman, John Williams, William J. Evans, Mem Parry, Jonah G. Owen, Alwyn Glyn Roberts, Heulwen Roberts, Johnnie Roberts, Benjamin P. Thomas, Jennie M. Jones, Norman Jones, Benjamin Griffith.

**Oriaduron** am bresenoldeb llawn am 5 mlynedd: Christmas Thomas, John Roberts, John D. Roberts, Willie Foulk Roberts.

**Gwobrwyon Dosbarthiadau:** 1. Emyr Glyn Roberts, 2. Lily Hughes, 3. Nellie Roberts, 4. Willie Foulk Roberts, 5. John Moxen, 6. Maggie Jones, 7. Ceris ap Owen. **M B H**

# PWY YDYNT?



*Diolch i Mr I. Roberts, 21 Dôl Elidir Llanberis am y llun.*

# GWEITHGAREDDAU'R HAF YN Y FRO



*Bachgen o Lanberis yn rhedeg yn gryf ar ddiwedd adran y bechgyn o Ras yr Wyddfa.*



## CYSTADLEUAETH

Gwelodd un o wŷr camera'r Eco ganibal yn sgwrsio â'r ddynes da-da yn un o bentrefi'r ardal yn ystod yr haf. Methodd â mynd digon agos i glywed beth oedd ganddynt i'w ddweud. **Felly, dychmygwch chi beth ddwedodd y naill wrth y llall – anfonwch atom. Cyhoeddir y dyfyniadau mwyaf doniol a rhoddir gwobr o £2 i'r un a ddyfernir yn orau.**

Anfonwch eich cynigion at unrhyw un o'r tri golygydd. Gwelir y cyfeiriadau ar dudalen 2.

(Rhagor o luniau Carnifalau ar y tudalennau canol)

PENSIYNAU YSWIRIANT MORGAIS

Gwasanaeth newydd i bobl y fro

**Robert Jones** a'r Cwmni

Ymgynghorwyr Yswiriant a Morgais

**SIOP ISAF, 7 HEOL-Y-DŴR, PENYGROES**

**Ffôn: 880027 (24 awr)**

Codwch y ffôn heddiw am bris

Mae gennym Gynlluniau Pensiwn, Bywydau, Yswiriant Eiddo, Adeiladau, Cyfrifoldebau, Ceir etc. ar gyfer pawb

ASIANTAETH LEOL CYMDEITHAS ADEILADU'R HALIFAX

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



**Gwesty'r Foelas**

(Richard a Meirwen Thomas)

**Llanrug**

*Ffôn: CAERNARFON 4652*

# Y CARNIFALA



*Seindorf Llanrug yn arwain gorymdaith carnifal y pentref. Buont yn brysur iawn mewn sawl carnifal yn y fro, a'r tu allan yn ystod yr haf.*



*Rhai o blant Llanrug yn sefyll yn amyneddgar yn disgwyl dyfarniad y beirniaid.*



*Braf iawn, mae'r rhain yn cael cerdded i ddangos eu hunain!*



*Dyma ni eto, — yr hen sefyllian 'ma! Tu ôl i rai o blant bach y Waunfawr — mae'r beirniaid Iona ac Andy yn ceisio gwneud penderfyniad.*



*Siwperman, Y Wrach, Y Clown a'r Ddwy Fuwch Goch Gwta yng Ngharnifal Bethel — a bob un yn mwynhau ei lolipop.*



*Carys, brenhines Carnifal Bethel gydag Amanda a Ceri yn ei hebrwng.*



*Anifeiliaid, hyd yn oed, mewn gwisg ffansi yng Ngharnifal Nant Peris.*



*Dwy ymwelydd â'r Nant — yr hen wrach a Brenhines yr Aifft.*


**IEUAN WILLIAMS**

Glanffrwd

**DEINIOLEN**

**Llanberis 870484**

* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol




*Pwy ddudodd bod carnifal yn hwyl.*



*Parau doniol yng Ngharnifal Llanberis.*




*Hetiau trawiadol Penisarwaun.*


U



Felicity, brenhines Carnifal Waunfawr.



"Peidiwch â saethu — a finna efo nhrowsus am ben 'nhraed!"



Pwy 'di'r babi mawr yma, dudwch?


I DRWSIO'R TELEDU NEU'R RADIO FFONIWCH...

**Osmond W. Shaw**

DEINIOLEN

*Ffôn:*

*LLANBERIS 870545*

**Gwasanaeth 'run diwrnod os ffoniwch cyn 10 o'r gloch y bore**





*Rhan o'r hwyl yn Llanberis.*




*Un o'r cystadlaethau i'r 'plant hŷn' ym Mhenisarwaun.*



*Kevin, Barry, Gwyndaf ac Alan Wyn o Ddeiniolen sydd yn y gwisgoedd ffansi yma.*




*Dyma chi un o hogia iach Bethel.*



*Haia Blodyn!*

# NANT PERIS

GWELLHAD: Dymunir llwyr wellhad i Mrs J.M. Williams, Pennant sydd newydd ddychwelyd o'r ysbyty wedi triniaeth lawfeddygol. Hefyd i Mrs Myfanwy Thomas, Bron yr Wyddfa a gafodd ddamwain i'w throed yn ddiweddar.

LLWYDDIANT: Llongyfarchiadau i Helen Mai, Tŷ Isa ar fod yn llwyddiannus yn arholiad y Coleg Brenhinol mewn damcaniaeth (theory) gradd 4, da iawn Helen.

Hefyd i David Pritchard, Llys Awel ar ei lwyddiant Lefel A ac Iwan Pritchard, Llys Awel, Dafydd Pritchard , Tŷ Isaf a Neil Price, Glyn Peris yn arholiad Lefel O a CSE. Bydd Iwan yn mynd i Goleg Technegol Bangor ar ddechrau'r tymor.Dymunir llwyddiant i'r tri yn y dyfodol.

PRIODAS: Dymuniadau da i Rita merch ieuengaf Mrs Ann Jones, 2 Nant Ffynnon a'r diweddar Harri Wyn Jones ar ei phriodas a byddant yn cartrefu ym Maes yr Haul, Bethel.

LLONGYFARCHIADAU i Elfyn Williams, Pennant ar fod yn llwyddiannus yn arholiad Diploma mewn Amaethyddiaeth yn y Coleg Amaethyddiaeth Aberystwyth.

DIOLCH: Dymuna Mrs J.M. Williams, Pennant ddiolch yn ddiffuant i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am bob ymweliad ac ymholiad, ac am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniwyd tra yn Ysbytai Môn ac Arfon ac Eryri, ac ar ôl dychwelyd adref. Diolch o galon i bawb.

Y CARNIFAL: Ar nos Wener, Gorffennaf 22 cynhaliwyd noson garnifal a mabolgampau Nant Peris. Yr arweinydd oedd Dei Tomos (BBC) a'r beirniaid oedd Mr Harri Jones (Rheolwr Banc y Midland), Mrs Harri Jones, Mr Gwilym Rees Parry (Banc y Midland) a'r Frenhines Sharon, Llanberis. Y ffotograffydd oedd Mr Ieuan Owen (codwr pwysau Cymanwladol). Dyma'r canlyniadau: **Anifail Anwes:** Queenie, Tŷ Isa. **Pram Addurnedig:** Delwen Haf. **Beic Addurnedig:** Owain Tudur. **Gliniau Gwlanog:** Hywel Roberts. **Merched:** Mary, Margaret a Margot. **Plant:** 1af. Trystan, 2. Hadn, 3. Nia. **Raffl Eliffant:** Siôn Llywelyn. **Raffl Rhaglenni:** Margaret Prydderch. **Enw'r Ddôl (Gwenno):** Jennifer. **Pwysau'r Oen:** Glenys Owen.

Gwisg Ffansi Rhydd i'r Ardal:

Dan 5: 1. Jessica, 2. Beverley. **5-8:** 1. Sally, 2. Rhian, 3. Gerallt. **8-11:** 1. Gwenlli ac Einir, 2. Alun a Stephen. **11-14:** 1. Andrea a Nicola, 2. Alis a Nia, 3. John Elis. **14-21:** 1. Linda. **Dros 21:** 1. Farley's Rusks. 2. Boys from the Blackstuff. 3. Tony. **Gwisg Ffansi Trigolion y Nant: Dan 5:** 1. Aled a Sara. **5-8:** 1. Eryl, 2. Llinos, 3. Owain. **8-11:** 1. Alun a Stephen, 2. Emma, 3. Karen, David. **11-14:** 1. Helen Mai, 2. John, 3. Sian. **Dros 21:** Mary Ffrancon, Rhian (cydradd 1af).

Rasus:

25 llath o dan 5: 1. Janie, 2. Beverley, 3. Manon. **5-8:** 1. Llinos Wyn, 2. Rebecca, 3. Nicola. **5-8 (hogia):** 1. Stephen, 2. Jason, 3. Owain. **50 llath: Genod 8-11:** 1. Bethan, 2. Jennifer, 3. Maria. **Bechgyn:** 1. Marc, 2. Alun, 3. John. **75 llath: Genod 11-14:** 1. Helen Mai, 2. Diane, 3. Nia Gwyn. **Hogia:** 1. Paul, 2. John, 3. Peter Glyn. **Genod 14-18:** 1. Karen. **Genod (Hyd y cae):** 1. Helen, 2. Karen, 3. Andrea. **Hogia:** 1. John, 2. Paul, 3. Marc. **Ras Tair Coes (genod):** 1. Jennifer a Lynn, 2. Maria a Bethan. 3. Julie a Linda. **(hogia):** 1. David a John, 2. Alan a Iestyn, 3. Cai a Kevin. **Ras i'r 'hogia mawr':** 1. John Pritchard. 2. Dei, 3. John Roberts. **Ras Berfa:** 1. Carol a Sharon, 2. John ac Alun, 3. Cai a Justin. **Rholio Casgen:** 1. John, 2. Meirion.

Uchafbwynt y noson oedd y 'Tug of War' ar draws yr afon – cymaint oedd y nerth y flwyddyn hon fel y torrodd y rhaff! Dosbarthwyd darluniau o rai o sêr y BBC i'r plant, a gwnaethpwyd elw sylweddol gan sicrhau'r wibdaith flynyddol i'r plant. Gedy'r bws am Landudno am 9 o'r gloch fore Sadwrn Medi 3 – croeso i bawb. Dymuna Mary, Theresa a Margaret ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i'r gweithgareddau, ac a'n noddodd mor hael.

# CRIW BONC AWSTRALIA



*Chwarelwyr Adran Uchaf Braich ym 1921. Tri yn unig sydd yn fyw heddiw sef Tommy Hughes (Crown) Clwt-y-bont, Ifor Evans, Maes Padarn, Llanberis a Hugh M. Roberts, Well St., Llanberis. Diolch i Mr H. Roberts am anfon y llun inni.*

*Parhad o'r dud. flaen*

mae'n aelod o seindorf enwog Glofa Grimethorpe, Doncaster. Ef yw pencampwr swyddogol Cymru a Gogledd Lloegr ar yr euphonium – yr offeryn yr enillodd arno y gystadleuaeth yn Llangefni gyda pherfformiad oedd bron yn berffaith.

Mae Marian, sydd hefyd yn 21, yn canu'r cornet ac mae hi wedi bod yn aelod ffyddlon o seindorf Deiniolen am flynyddoedd. Roedd ei pherfformiad diwethaf gyda'r band yn yr Eisteddfod yn un cofiadwy iawn iddi – sef ennill y gystadleuaeth gyda chanmoliaeth, a'r un diwrnod, Nicholas yn ennill hefyd.

Tu ôl i Nicholas a Marian yn y llun mae Mr John Childs, tad Nicholas a hyfforddwr gwadd Deiniolen, a Karen a Bobby Williams – chwaer a thad Marian, sydd hefyd yn aelodau o'r seindorf.

# YR ECO A'R SWYDDFA GYMREIG

**Mae Eco'r Wyddfa wedi gofyn am esboniad swyddogol gan y Swyddfa Gymreig o sut y bu i rifyn o'r papur ymddangos mewn arddangosfa ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llangefni. Ni roddwyd caniatad i hyn ddigwydd gan swyddogion yr Eco gan nad oeddem yn cytuno â'r thema – sef 'Cefnogaeth y Llywodraeth i'r Iaith Gymraeg'.**

Eglurodd un o'r swyddogion y Swyddfa Gymreig ar y maes fod copi wedi ei anfon atynt a hynny heb unrhyw lythyr na gwybodaeth ynghyd ag o. Ni chawsant y copi gan unrhyw un o weithwyr personol yr Eco.

Y copi a ddefnyddiwyd yn yr arddangosfa ymysg tua dwsin o bapurau bro eraill oedd y rhifyn cyntaf o'r Eco (Chwefror 1976) – copi prin iawn erbyn hyn – ac un sy'n perthyn i gyfnod pan nad oedd sôn am grantiau o unrhyw fath yn gymorth i gynnal papur bro.

Rydym yn derbyn y grant gan mai ein harian ni y trethdalwyr ydyw – ond nid ydyw lawer.

Ym 1982-83 neilltuodd y llywodraeth £9,500 ar gyfer holl bapurau bro'r gogledd. £350 y flwyddyn yw rhan yr Eco o'r ffynhonnell yma – sef digon i dalu am gynhyrchu 12 tudalen o UN RHIFYN – neu werth llai na 5% o gost flynyddol y papur.

## WYNEBAU O'R GORFFENNOL



*Pwy? Ble? Pryd? Atebion os gwelwch yn dda. Diolch i Mr Idwal Roberts, Llanberis am anfon y llun.*

# BLAS Y GORFFENNOL

"Maen'n ffasiynol heddiw i ddychwelyd i'n gwreiddiau ac i'r gorffennol i chwilio am y pethau da mewn bywyd, ac ym maes coginio" – dyna ddywed Sbec, Sianel Pedwar Cymru. A dyma gawsom ni yn yr haf o'r gyfres 'Blas y Gorffennol' pan goginiwyd 'Y Torgoch' gan Nerys Roberts, 'Y Bistro, Stryd Fawr, Llanberis. Gresyn na fuasem wedi cael mwy o amser yn gwylio Nerys yn trin a choginio'r torgoch – y pysgodyn hyfrytaf ei flas o'r pysgod i gyd.

Erbyn heddiw nid yw'r torgoch yn bysgodyn hysbus iawn. Yn ôl yr hanesydd William Williams yr oedd ei bysgota yn gelfyddyd yn yr hen amser a llawer iawn o sylw yn cael ei roddi iddo, nid fel celfyddyd yn unig ond fel mater o ddiwallu angen. Roedd torgochiaid Llynnoedd Padarn a Pheris yn gyfryngau bywoliaeth trigolion y plwyf ac nad oedd bysg mor flasus i'r archwaeth. Yn y flwyddyn 1809 bu 'Holiadur' printiedig gan Humphrey Owen a Dafydd Ddu Eryri am 'Y Torgochiaid' er budd i'r Saeson bonheddig a ddeuai i'r ardal i bysgota.

Erbyn heddiw, ychydig o'r pysgod yma sydd yn cael eu dal a gresyn am hyn. Ychydig yw'r pysgotwyr hefyd. Nid yw'r un diddordeb ar gael rywsut. Rai blynyddoedd yn ôl byddai llu o bysgotwyr penigamp, rhyw ddeg neu ddeuddeg o gychod wedi angori ar doriad gwawr ger genau'r llyn. Dyma nhw – y cewri ym myd y pysgota – Harri Rowlands, Jac Sais, Harri Parri, Breimar, Huw Cadi, Dafydd Trefriw, ac ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach meibion Harri Rowland, Tomi, Harri, Robin, Zacheus a Gwilym Elidir View. Ychydig iawn o bysgotwyr gyda'r amynedd a'r brwdfrydedd sydd yn yr ardal heddiw. Byddai'r hen bysgotwyr wedi angori eu cychod, doriad dydd, wedi cael yr helfa (ac nid un enwair a ddefnyddid yr amser hynny ond hanner dwsin neu fwy) ac yna codi'r angor a mynd i weithio diwrnod o waith yn y chwarel. Roedd digon o dorgochiaid i'w cael a'u gwerthu am swllt y dwsin. Ni fyddai rhewgell i gadw'r pysg am wythnosau fel ag y mae hi heddiw ond byddai pawb yn yr ardal bron yn cael torgoch i lawer pryd. Amser y diolchgarwch fyddai'r amser gorau. Carwn wybod beth sydd wedi digwydd i'r torgochiaid erbyn heddiw. Maent yn siŵr o fod yn y llyn o hyd ond pwy sydd gyda'r amynedd i chwilio os gwn i? **M B H**


**Wil a Val Guy**

**TREFLYN STORES**

**BETHEL**

*Ffôn: Y Felinheli 670237*

Stoc helaeth o ddillad plant

Legwarmers (£1.70)
Anklewarmers (95c)

Snwcer – sialc, tips
Ciws Riley – a byrddau hefyd os dymunwch

Teganau, Diodydd, Melysion, Bwydydd a Dafedd



**J.M. JONES A'I FAB**

**GWAITH CERRIG BEDDAU**

**A THREFNWYR ANGLADDAU**

**DEINIOLEN**

**Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)**
**Y FELINHELI 670124 (Nos)**

# Y GOBEITHLU

**"'Dydy'r hogyn yna ddim i fod i fyny'n fana. Nid un o'n plant ni ydy o. Anfonwch o i lawr. Dydy o ddim i fod i ennill gwobrwyon ein plant ni. Un o blant Capal Coch ydy o. Dydy o ddim i fod yna."**

**'Roedd y blaenor druan ar goll. Wydda fo ddim beth i'w wneud. Coch llachar oedd lliw wyneb y ddynas, gwyn fy un i, ac yn ôl i fy sêt yr es i, i eistedd mor isel ag y gallwn, allan o'r golwg.**

Am ryw reswm, roeddwn wedi mynd i Fand o Hope, Preswylfa, yng nghwmni rai o'r plant. Tra roeddwn i'n eistedd yn un o'r gynulleidfa roedd pob peth yn iawn, ond pan anogodd y bechgyn i mi fynd ymlaen i gymryd rhan mewn cystadleuaeth, neidiodd y fam ar ei thraed a barnwyd fi yn "persons non grata".

Dalia'r fam i fwmblian yn y cefn.

"Dydy o ddim yn iawn, plant capeli erill yn dod i fama. 'N plant ni bia'r gwobrwyon. Ddylia nhw ddim cael dwad."

Es i byth wedyn i Fand o Hope yr un capel arall.

Roedd nos Lun yn y festri yn noson o fwynhad, – awr a hanner o hwyl a sbri, hefo plant a rhieni yn cyd-gymdeithasu am waith a phleser. Dechreuais i fel y rhan fwyaf, yn ifanc iawn.

"Wyt ti'n dod hefo mi?"

"Ydw. I ble ydan ni'n mynd?"

"I'r Band o' Hope".

Roedd hi'n tynnu am amser gwely, a dyma fy nhad yn gofyn i mi fynd hefo fo. Pa blentyn bach fyddai'n gwrthod.

"Ble mae Band o' Hope?"

"Yn capal. Tyrd i dy fam olchi dy ddwylo a dy wyneb."

Cododd fi ar ei 'sgwyddau, a ffwrdd a ni i fyny'r stryd. Roeddwn yn prepian yr holl ffordd dros Fron Olau, – eisiau gwybod beth oedd y Band o' Hope 'ma, pwy oedd yno, beth oedd yn digwydd, a mawr oedd fy mhleser wrth weld fod llond y festri o blant.

Rhoddodd fy nhad fi i eistedd yn y ffrynt hefo'r plant bach eraill, rhai o'n ni'n nabod eisoes yn yr Ysgol Sul – Eirlys Jones, Rhiannon Davies, John Rees, Ifan Huw a Megan Coed Mawr. Eisteddai'r plant hynaf yn y cefn, a thu ôl iddynt, dwy neu dair rhes o famau. Eisteddodd fy nhad hefo'r dynion eraill, ar yr ochor, i gadw llygaid ar y rhai swnllyd. Dyma fyd roeddwn eisoes wedi dechrau byw ynddo, – canu emynau plant, Jones Bach Heulfryn neu Meic Pritchard wrth yr organ, ac oherwydd ein bod heb weinidog, un o'r blaenoriaid, Thomas Rowlands, Jabbes Jones neu Fôn Jones yn arwain.

Aeth yr amser yn llawer rhy fuan. Mae'n rhaid fod fy nhad wedi fy nghario adre, a chofiaf ofyn iddo y noson wedyn oedd 'na Fan o' Hope heno hefyd. Dyma ffordd dda o godi plant. Mae'n wir nad oedd 'na deledu nac hyd yn oed "wireless" i'n gwrth ddenu, ond roedden ni'n edrych ymlaen at fynd. Rhaid oedd bod yn blant da, roedd trefn, ond doedd hi ddim yn gaeth. Digwyddai rhywbeth gwahanol bob tro, rhai cystadlaethau yn ddigrif, fel atalnodi darn, neu roi cynffon ar fochyn hefo mwgwd dros eich llygaid. Tynnai un o'r tadau lun mochyn mawr tew ar y bwrdd du, ar ôl anfon y plant hynaf i'r gegin, deuent allan, un fesul un i geisio eu lwc. Sgil i'n dysgu oedd eitemau eraill, canu unawd neu ddeuawd, adrodd salm neu ddarn o farddoniaeth, cydadrodd neu lunio brawddeg ar un lythyren. Cyn dechrau cystadleuaeth, gofynnai'r arweinydd,

"Pwy fydd mor garedig a rhoi gwybrwyon?"

Deuai'r atebion o'r cefn gan y mamau, ie nhw oedd trysoryddion yr aelwydydd:

"Ro i dair ceiniog."

"Mi ro i ddwy geiniog."

"Dyma geiniog i'r trydydd."

Ffortiwn fach oedd ennill tair ceiniog, yn enwedig un wen, ac roedd rhannu'r drydedd wobr, a derbyn dima yn werth yr ymgais unrhyw bryd. Dydw i ddim yn beio'r fam o Breswylfa – roedd pob ceiniog wedi'i hennill drwy waith caled yn y chwarel, a phob dima yn cyfrif.

Yn Eco mis Mehefin, diddorol oedd darllen tudalen plant Ysgol Dolbadarn. Cefais fy atgoffa o'r amser y rhedodd J.P. Davies gyfres ar enwogion yr ardal, a chael un o'r oedolion i gymryd at bob un, – J.R. Jones ar Guto Tŷ Du, Dafydd 'Rhelfa ar Margret uch Ifan, W.R. ar Dewi Arfon, rhywun arall ar Esgob Goodman, ac fe ddaeth hanes cynnar Capel Coch yn hen fferm Llwyn Celyn o dan arweiniad taid Huw Wheldon i mewn iddi hefyd. O ble'n y byd y cawsent eu ffeithiau? Eu hunig ffynhonellau oedd straeon llafar a gariwyd o genhedlaeth i genhedlaeth. Ein gwaith ni oedd ail-ysgrifennu'r stori, a chael beirniadaeth gan ein gweinidog, yr wythnos newyd. Addysg yn cael ei fwrw atom gan athrawon a godwyd allan o brinder ac oeddynt eto yn gwybod gwerth eu hadnodau.


'Rwan fe gawn ni bum munud ar y modulator.

"BEth? Beth yw modulator?"

Clywaf y cwestiwn ar wefusau plant heddiw. Byddai'r modulator yn cael ei osod ar yr easel o'n blaenau, wrth ochor sêt yr organ, ac aem i fyny ac i lawr yr octif. Yna un neu ddwy arpreggio cyn mynd at y trawsgweiriadau. Roedden ni'n gambliars. Dysgwyd ein hathrawon gan Ieuan Gwyllt. Hawdd oedd cael dau lais ar bob un o'r emynau plant, ac er bod 'na weithiau ambell i hudd difiwsig yn brefu yn ein canol, canu brwdfrydig swynol oedd canlyniad hyn oll.

Hwn oedd fy nhgoleg gwreiddiol, a phleser oedd ei fynychu.

**Goronwy Owen**




**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

***W.J.GRIFFITH***
PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
*Ffôn: Caernarfon 3248*
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP
Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors.
*Dim un dasg rhy fychan,*
*Dim un dasg rhy fawr..*

Cymdeithasau
Cymreig
Manceinion

Croesawn fyfyrwyr a phobl ieuanc sy'n dod i Fanceinion am y tro cyntaf ym mis Medi/Hydref, i ymuno a ni yn ein cyfarfodydd.

<u>CYMDEITHAS Y DDRAIG GOCH</u> cysylltwch a:-
Glyn Hughes
26 Thorp Street,
Peel Green, Eccles.

<u>CYMDEITHAS CYMRY MANCEINION</u> cysylltwch ag:-
Alun Roberts
62 Audley Avenue,
Stretford. M32 9TG.

**GWILYM JONES**
**Monumental Works**
**LLANRUG**
FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWYR LLEOL

# DEINIOLEN

**Gohebydd: W.O. Williams, Disgwylfa. Ffôn 871259.**

GOHEBYDD: Yn anffodus, oherwydd cyflwr ei hiechyd, mae Gohebydd yr Eco yn Neiniolen, Mrs Nancy Rowlands wedi penderfynu rhoi'r gorau i'w swydd. Mae hyn, yn naturiol, yn ergyd i ninnau fel swyddogion gan fod Mrs Rowlands yn ohebydd arbennig iawn gyda'r ddawn i gael newyddion i law o bob rhan o'r pentref. Mae ein dyled a'n diolch iddi'n fawr iawn, ac mae pawb sydd yn ymwneud â'r Eco yn dymuno adferiad iechyd llwyr a buan iddi, a phob hapusrwydd iddi hi a'r teulu yn y dyfodol.

Wedi ffarwelio â Mrs Rowlands, rydym yn hynod falch o gael croesawu Mr W.O. Williams, Tŷ Capel Disgwylfa atom fel gohebydd. Diolch o galon iddo am gynnig ei wasanaeth a'n dymuniadau gorau iddo yn y swydd.

PLAID CYMRU: Cyfarfu pwyllgor y gangen yn Bro Dawel nos Fercher, 25 Awst, pryd y gwnaed y trefniadau casglu aelodaeth ar y flwyddyn 1983-84.

Enillwyr Clwb 100 mis Gorffennaf oedd – £10: Rhif 3, Mr Leonard Parry, 1 Tai Gweledfa, £8.50: Rhif 48, Mrs Lorraine Jones, 1 Tŷ'r Faenol, Clwt-y-bont, Enillwyr mis Awst oedd: £10: Rhif 40, Mrs Betty Roberts, 48 Rhydfadog, £8.50: Rhif 17, Mr Gwyn Parry, Bro Dawel.

DIOLCH: Dymuna Eira Wynne Jones, 3 Rhydfadog ddiolch yn gynnes i'w theulu, cyfeillion ac ardalwyr Deiniolen am y rhoddion a'r llu gardiau a dderbyniodd ar achlysur ennill Gradd B.A. gydag anrhydedd mewn Cymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor.

Dymuna Mrs Margaret Evans, Maes y Dref, Clwt-y-bont ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu, cyfeillion, a chymdogion am eu careigrwydd parod ac am y llu o gardiau a rhoddion a dderbyniodd, tra bu'n ysbytai Eryri Caernarfon a Môn ac Arfon, Bangor yn derbyn triniaeth lawfeddygol. Diolch yn arbennig i feddygon a gweinyddesau'r ddwy ysbyty am eu gofal ohoni. Diolch hefyd i'r meddyg teulu am ei gwasanaeth diflino.

DIOLCH: Dymuna Gwen Lloyd Roberts a'r teulu ddiolch yn ddiffuant iawn am y fath gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniasant yn eu profedigaeth chwerw o golli priod, tad a thaid caredig, Arthur Lloyd Roberts, Awel y Mynydd. Bu'r oll yn gymorth iddynt.

Casglwyd £300 mewn rhoddion at y Clinig gan obeithio y bydd hyn yn gymorth mewn rhyw fodd i gleifion eraill.

ENILLWYR CLWB 200 am fis Awst yw 1: £25, Mr R. Williams, Tanyfron, Y Fachwen, 2. Mr A.W. Evans, 55 Pentre Helen, 3. Miss Marion W. Williams, Arfon House.

Mae'r Clwb 200 eleni yng ngofal Mr Hywel Lewis, Llys Annedd.

DIOLCH: Dymuna Jacqueline a Percy Pen-y-groes ddiolch o galon i'w ffrindiau a'r teulu am eu rhoddion a'r holl gardiau a dderbyniodd ar achlysur genedigaeth eu mab bach Iwan. Diolch yn fawr iawn.

DIOLCH: Dymuna Mrs J. Jones, 3 Heol Newydd ddiolch i'w holl ffridniau a'r perthnasau am eu caredigrwydd tuag ati tra'n ysbyty Môn ac Arfon yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Mrs Betty Wyn Davies, 82 Pentre Helen a Mrs Sarah Roberts, 13 Rhos Rug, Llanrug ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli chwaer, Miss Katie Parry. Diolch hefyd am bob cyfraniad tuag at Gronfa Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod yn y neuadd ar Orffennaf 12. Croesawyd y gŵr gwadd sef Mr Cyril Jones, Warden Parc Cenedlaethol Eryri, gan y llywydd. Mwynhaodd yr aelodau y ffilm a ddangosodd ar fywyd gwyllt. Diolchwyd iddo gan Mrs Rita Jones. Rhoddwyd manylion cryno iawn o'r Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a gynhaliwyd yn Llundain gan Miss Beti Williams.

Cydymdeimlwyd â theulu'r ddiweddar Mrs Smalley, Green Terrace a oedd yn aelod selog o'r Sefydliad ac â Mrs Betty Wyn Davies ar golli ei chwaer.

Rhoddwyd y te gan Miss Moeller a Mrs Maureen Evans. Enillwyd y raffl gan Mrs Eirlys Lloyd Jone.

YR YSGOL FEITHRIN: I ddiweddu'r tymor yr haf aeth plant yr Ysgol Feithrin, ynghyd â'u mamau am ddiwrnod i wersyll Butlins ym Mhwllheli. Cafwyd diwrnod da a thywydd ardderchog.

Ym mhabell Mudiad Ysgolion Meithrin yn yr Eisteddfod yn Llangefni gwelwyd cannoedd o deganau meddal, wedi eu gwneud gan y gwahanol gylchoedd, i'w dosbarthu i blant mewn ysbytai yng Nghymru. Yn eu mysg yr oedd tuag ugain o gylch Deiniolen.

Bydd yr Ysgol Feithrin yn ail-agor ar Fedi 6 ac mae lle i blant dros ddwy a hanner mwlydd oed – y tâl fydd £7 ar ddechrau'r tymor ac yna 50c yr wythnos wedyn. Os es unrhyw un â diddordeb mewn anfon eu plant, cysyllter â'r ysgrifenyddes, Gwen Griffith, Fron – Ffôn 870858.



*Daeth Parti Ceris o Ddeiniolen yn drydydd yn y gystadleuaeth i bartïon adrodd.*

*Caiff y parti ei hyfforddi gan Mrs Mary Wyn Jones, a dyma'r tro cyntaf i'r parti gystadlu yn y Genedlaethol.*

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol ar Fehefin 20 yn y Ganolfan o dan lywyddiaeth Mrs Miriam Lewis. Cafwyd adroddiad cryno iawn o'r cyfrifon gan y trysorydd Mrs Marian Wyn Williams.

Dyma'r swyddogion a etholwyd am y tymor 1983-84 – Llywydd: Mrs Eirlys Williams, 3 Pentre Helen, Is-lywydd: Mrs Marian Wyn Williams, 12 Tai Deiniol, Trysorydd: Mrs Marian Wyn Williams, 4 Tai Caradog, Trysorydd: Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir. Rhoddwyd y te gan Mrs Miriam Lewis a Mrs Eirlys Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Ellen Williams, 2 Y Bwthyn. Bydd y tymor nesaf yn dechrau nos Lun, Medi 19.

PEDWARAWD Seindorf Deiniolen: Yr ail wobr a enillodd Pedwarawd Deiniolen, gyda dim ond marc rhyngddynt hwy a Bedwas, a enillodd y wobr gyntaf.

Darn prawf Deiniolen oedd 'Three Impromptus' (Kenneth Cook) a hyfforddwyd y pedwarawd gan Mr Meurig Parry a Mr John Childs.

*Yn y llun o'r chwith i'r dde: Mr Eifion Hughes (Cornet 1), Mr Gwyn Parry (Horn), Mr Irfon Morris (Iwffoniwm), Mr Ieuan Morris (Cornet 2).*



## DRAENOG



**EMBARAS!!**

**A oes gwirionedd yn y stori fod siopwr o Lanberis wedi anfon Cymro Cymraeg allan o'i siop am ei fod yn creu embaras i'w gwsmeriaid Seisnig drwy siarad yr hen iaith gyntefig 'ma?**





**STRYD FAWR, DEINIOLEN** Ffôn Llanberis **871210**

**Crefftau llechi:** arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol. **Arddangosfa o hen luniau chwarel.**

**Ar agor 9.30 am - 9.30 pm**

*Galwch i weld Gwil wrth ei waith ym Mharc Padarn, Llanberis*

**DEINIOLEN CABS**

**Gwasanaeth 24 awr – unrhyw bellter**
**Eich rhedeg i'r Maes Awyr neu'r Porthladd**

**Ffôn: Llanberis 871591**

**J.M. WILLIAMS, 12 TAI FAENOL**

# CWM-Y-GLO

**GOHEBYDD:** Mae'n bleser gennyf gyhoeddi enw a chyfeiriad Gohebydd newydd yr Eco yng Nghwm-y-glo sef Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (**Ffôn 872275**). Diolch yn fawr iddi am ei pharodrwydd i helpu'r Eco. Rwyf yn gobeithio'n arw iawn y bydd ysgrifenyddion a gohebwyr y wasg, **pob** capel, eglwys, clwb a chymdeithas neu unrhyw fudiad arall yn y pentref yn cysylltu â Mrs Rowlands, gyda newyddion a lluniau. Hefyd unigolion, teuluoedd ac yn y blaen gyda newyddion, diolchiadau, llongyfarchiadau. Eich papur chi yw'r Eco; a'ch cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod chi'n cysylltu â'ch gohebydd lleol.

**Tony Elliott, Gohebydd Newyddion.**

WYTHNOS Y CARNIFAL: Agorwyd gweithgareddau'r **wythnos gyda'r** Gymanfa Ganu yng Nghapel y Tabernacl, dan arweiniad Mrs Glenys Griffiths, Bethel a Miss Lowri Prys Roberts, Brynrefail wrth yr organ. Cafwyd eitemau gan Barti Clychau'r Grug a Gwlith.

Nos Lun cafwyd noson Bingo ac enillwyr y raffl oedd Mrs Margaret Williams, Bryn, Mrs Sylvia Williams, Llwyn Coed, Mrs Jones, Seiont House, Mrs Verna Jones, Meillionen.

Nos Fercher trefnwyd Helfa Drysor a'r enillwyr oedd 1. Gwilym Williams, 2. Ieuan Rowlands, 3. Michael John Williams, 4. Gwyn Hefin Jones.

Nos Iau cynhaliwyd cystadleuaeth Dartiau yng Ngwesty'r Snowdon a'r enillwyr oedd: Merched: Mrs Ann Hughes. Dynion: Mr Gwilym Williams.

Agorwyd y Carnifal a gynhaliwyd ar y Sadwrn gan Mr J.H. Hughes (prifathro Ysgol Dolbadarn, Llanberis), a beriniadwyd y wisg ffansi gan Mr a Mrs J.H. Hughes a Mr a Mrs R.H. Parry, Caernarfon (gynt o'r Cwm). Y wraig wadd oedd Miss Dilys Ann Jones, Ll.B, Meillionen a'r cyflwynydd oedd Mr Lloyd Owen. Enillwyr y wisg ffansi oedd:

**Dan 5 oed: Unrhyw wisg**: 1. Martin Parry, Kevin Williams, 2. Bethan Hughes, Clive Fildes, 3. Rebecca Walkden. **Dan 8 oed**: 1. Delyth Morris, 2. Terry Williams, Debbie Jones, 3. Owain Gwyn, Cheryl Hughes, **Mark** Roberts, Darren Jones. **8-12 oed**: 1. **Carys** Williams, Karen Williams, David **Foulkes**, William Wardle. 2. Catrin Gwyn, **Alan** Sinclair. 3. Rhian Morris. **12-15 oed**: 1. Terry Williams, 2. Richard Ellis, 3. Nerys Williams, Karen Foulkes, Alison Jones. **Agored i bob oed**: 1. Terry Williams, 2. Owain Gwyn, Karen Williams, 3. Nerys Williams, Karen Foulkes, Alison Jones. **Y Wisg Rataf**: 1. Einir Gwyn, 2. David Foulkes, 3. Dafydd Williams, Karen Williams. **Unrhyw gymeriad adnabyddus**: 1. Mrs Jennie Wilkins, 2. Mr Fred Hannes, 3. Catrin Gwyn. **Y Pâr Gorau**: 1. Einir Gwyn a Catrin Gwyn. 2. Reberta Walkden ac Eleri Wyn Williams. **Y Grŵp Gorau**: 1. Chinese Laundry, 2. Bouncers, 3. Three Degrees. **Beic neu Bram wedi ei addurno**: 1. Karne Foulkes, Irfon Jones, 2. Myfanwy Roberts, William Wardle. **Coes mwyaf siapus merched a dynion**: 1. Reberta Walkden, 2. Mr Fred Hannes. **Enillwyr raffl y stondinau oedd: Undeb y Mamu** – Hefina Roberts, 16 Glanmoelyn, Llanrug. **Merched y Wawr** – Margaret Williams, Bryn, Cwm-y-glo. **Clwb Pêl-droed y Cwm**: Mrs Jones, Lyndale, Llanrug. **Dosbarth Cadw'n Ystwyth: G. Walker, 25 Millbrook Drive, Kirkby. Dyfalu pwysau olwyn**: Mr Edgar Williams, Fron Gader, Cwm-y-glo. **Enillwyr y raffl fawr oedd**: 1. Terry Williams, Bryn Cwm-y-glo, 2. M. Owen, Clydlan, Penrhos, Bangor, 3. Bryn Evans, 15 Dolafon, Cwm-y-glo, 4. Hughes, 16 Dolafon, Cwm-y-glo. 5. Jones, 14 Pentre Helen, Deiniolen, 6. Alex ac Audrey, Allt Goch, Cwm-y-glo. 7. Mrs Owen, 20 Dol Eilian, Llanberis, 8. D. Rawlins, Lynwood, Cwm-y-glo. 9. Alan Jones, Bod Elan, Cwm-y-glo. **Rhif lwcus y rhaglen** – Mrs Cepas, Bryn Hyfryd, Cwm-y-glo.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cyfraniad a'u cefnogaeth i lwyddiant y carnifal.

NOSON WOBRWYO'R TÎM PÊL-DROED: Cynhaliwyd y digwyddiad blynyddol yma ar Gorffennaf 15 yng Ngwesty Plas Tan Dinas, Dinas Dinlle. Y gwahoddedigion oedd Mr a Mrs Sammy Lewis, Siop Chwaraeon Lonsdale, Bangor. Hwy oedd wedi noddi'r tîm eleni. Gwobrwywyd llawer ar y noson, ond y brif wobr oedd – Sgoriwr Uchaf y tymor: Gwyn Morris (30 gôl). Yn gyfartal Is-chwaraewr y Tymor: Alwyn Williams a Peter Sharpe. Chwaraewr gorau'r tymor: Steven Owen. Anrhegwyd Mr Ashley Wager gyda tancard arian am iddo redeg yn y 'London Marathon' a chodi arian i'r tîm. Cafodd Terry Williams, Glanbogelyn darian am gasglu y mwyafrif o arian i'r clwb.

Anrhegwyd Mr Gwilym Williams (rheolwr) a Mr Evan Owen (cymorth brys a thrysorydd) gyda tharian bob un gan Steven Owen, Capten y tîm ar ran yr holl chwaraewyr. Hoffai'r clwb ddiolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi eu cefnogi mewn unrhyw ffordd trwy'r tymor.

MERCHED Y WAWR: Dymunwn ddiolch i'r ardal am y cyfraniad o £19.85 at y Spastics ac i'r ddwy fu'n casglu o ddrws i ddrws sef Mrs Marjorie Roberts a Mrs Iris Rowlands.

Bydd cyfarfodydd y gaeaf yn dechrau nos Fercher, Medi 21 pryd y ceir sgwrs am Ddyffryn Nantlle gan Mr Dewi Thomas. Croeso cynnes i bawb, aelodau hen a newydd.

Dyma'r swyddogion am y gaeaf – Llywydd: Mrs Hannah Jones, Is-lywydd: Mrs E. Evans, Trysorydd: Mrs Margaret Williams, Ysgrifenyddion: Mrs Marjorie Roberts a Mrs Iris Rowlands, Gohebydd i'r Wasg: Mrs Verna Jones, Dosbarthwr 'Y Wawr': Mrs K. Watkins.


# SCIPIAU TIM



**o £16**

CYTUNDEB DYDDIOL
NEU WYTHNOSOL

*LLANBERIS 871354*


# DEINIOLEN

Gohebydd: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

DIOLCH: Dymuna Ronald Jones (Fron Heulog gynt) ddiolch yn fawr iawn i ardalwyr Dinorwig am yr arian a chardiau a dderbyniodd tra'n yr ysbyty.

SARDIS (B): Daeth canol mis Mehefin â thristwch i'r capel hwn ym marwolaeth sydyn y chwaer Margaret E. Hughes, Groeslon Uchaf, a fu'n cwyno ers rhai misoedd, ond eto y rhan fwyaf ohonom yn methu sylweddoli bod y diwedd mor agos, er cyrraedd ohoni ei 81 mlwydd oed. Mae ei hymadawiad yn golled i'r ardal yn ogystal â Chapel Sardis. Parhawn i werthfawrogi'r hyn a wnaeth i gyfoethogi bywyd cymdeithasol yr ardal.

Fe fuom ychydig yn gynharach yn llongyfarch y brawd Gwilym G. Jones, Y Foel am ei wasanaeth am gyfnod maith ar yr offeryn yn Sardis. Aeth hanner can mlynedd heibio er pan ddechreuodd yn lled ifanc, wedi i'r cyn-organydd – y diweddar Richard Owen Thomas, Foel Gron roddi rhai cyfarwyddiadau iddo. Bellach mae yntau'n teimlo colli cyfraniad y ddiweddar chwaer a enwir uchod.

CYMDEITHAS DDIWYLLIADOL UNDEBOL: Fe fydd gweithgareddau tymor y gaeaf y Gymdeithas uchod yn diweddu fel rheol ym mis Mawrth, ond y blynyddoedd diwethaf fe ennynir diddordeb ychwanegol trwy fynd ar wibdaith ar y Sadwrn cyntaf ym mis Gorffennaf. Eleni fe gychwynnwyd o Ddinorwig ar ôl cinio cynnar a theithio drwy Benisarwaun, Groeslon Marc gan ddilyn ffyrdd llai hysbys nes cyrraedd Beddgelert, Maetnwrog, Talsarnau a Harlech hyd at y Bermo. Fe gafwyd cyfle i anadlu gwynt y môr yn y fan honno ar ôl rhyfeddu at harddwch coed a mynyddoedd ar ein ffordd yno. Wedi ymadael â Bermo aeth modur Purple Bethesda â ni drwy Ddolgellau, Llanuwchllyn ac aros am ychydig eto yn y Bala. Yr oeddem yn ôl yn Ninorwig am 9.30 yr hwyr, wedi i bawb gael dogn helaeth o fôr a mynydd a rhyfeddu at brydferthwch llynnoedd a dolydd. Ni fu'r gwres yn rhy llethol chwaith.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlir â theulu'r diweddar Mr Arthur L. Roberts, Awel y Mynydd, Deiniolen. Brodor o Blue Peris, Dinorwig ydoedd, ond symudodd yn ddiweddar fyw i Ddeiniolen. Cafodd gystudd blin.

ANRHEGU: Yn ystod cyfarfod o Henaduriaeth MC Arfon yng Nghapel Dinorwig ar Gorffennaf 12 anrhegwyd Mr Owen R. Williams, 2 Bro Elidir, Dinorwig ag anrheg o gloc hardd a swm o arian gan aelodau Eglwys Dinorwig MC fel gwerthfawrogiad a chydnabyddiaeth o'i wasanaeth yn yr Eglwys fel blaenor am 42 mlynedd. Cyflwynwyd yr anrheg iddo gan Mr Gwilym Davies, 10 Bro Elidir, Dinorwig mewn geiriau o deyrnged dethol. Roedd yn gyfarfod o ordeinio blaenoriaid. Cafwyd cyfarfod llewyrchus iawn.

LLONGYFARCHIADAU: a dymuniadau da ar ei phen-blwydd am 21 mlwydd oed i Miss Annette B. Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig ar Gorffennaf 29 eleni. Hefyd ar ei gwaith yn cyfeilio i'r Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Ynys Môn eleni. Hefyd i'w chwaer, Miss Marina B. Roberts, Tŷ'r Ysgol ar basio ei harholiadau yn Ysgol Brynrefail a Miss Gwyneth E. Davies, 10 Bro Elidir, Dinorwig ar ei harholiadau yn y Coleg Normal.

DIOLCH: Dymuna Mr Owen R. Williams, 2 Bro Elidir, ddiolch o galon i aelodau Eglwys Dinorwig MC am eu rhodd o gloc hardd ac arian a dderbyniodd gan yr aelodau am ei wasanaeth i'r eglwys am 42 mlynedd fel blaenor.


**GWELLHAD: Erbyn hyn daeth Mr** Leslie Otter, Afallon adref o Ysbyty Môn ac Arfon wedi triniaeth lawfeddygol. Gwellhad buan fo iddo.

DIOLCH: Dymuna H. Ronald Jones, Fronheulog gynt, ddiolch yn fawr iawn i ardalwyr Dinorwig am yr arian a chardiau a dderbyniodd tra'n yr ysbyty.

Dymuniadau da i Mr Kelvin Pleming, 1 Maes Eilian a Miss Sian Elen Evans, 3 Mountain View, Porthmadog ar eu priodas, Awst 20.

Llongyfarchiadau i Mr Glyn Thomas, 1 Bro Elidir ar gael ei ethol ar Gyngor Cymuned Llanddeiniolen.

Llongyfarchiadau i Mr R.H. Thomas, Craigle am ennill wobr am yr enw 'Gweledfan' ar y Viewing Point. Dymuna Pwyllgor Cymuned Llanddeiniolen ddiolch i drigolion Dinorwig a'r Fachwen am yr holl enwau dderbyniodd R.E. Williams. Dyma lun Mr R.H. Thomas, yncael ei wobrwyon gan y Cynghorydd R.E. Williams.



DIOLCH: Dymuna Annette Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol ddiolch i bobl Dinorwig a Deiniolen am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 21 oed Gorffennaf 29.

## FACHWEN

LLONGYFARCHIADAU: i Robert Arwyn Jones ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth cyfansoddi tôn yn Eisteddfod Genedlaethol Llangefni. Mab i Mr a Mrs Griff Jones, Bryn Gelli, Talysarn yw Robert Arwyn ac yn ŵyr i'r diweddar Mr a Mrs R.G. Roberts (Bobbie), Cae Canol, Fachwen.


Dysgwch yrru'r car gydag

**Y.Y.O.**

**YSGOL YRRU OFALUS**

- **Gwasanaeth 7 diwnod**
- **O ddrws i ddrws**
- **Control Deuol**

**D** **L**

**PRITCHARD**
**43 glanffynnon**
**LLANRUG**
**CAERNARFON 5112**

Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

# WAUNFAWR

**Gohebydd : Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626).**

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Mehefin: 1af. £40, Mrs M. Awstin Jones, Penrhos. 2il, £25, Evelyn Anderson, 11 Tŷ Hen, 3ydd, £10, E.W. Roberts, 10 Ael y Bryn. Enillwyr y Clwb 300 am fis Gorffennaf oedd: 1af, Edgar Jones, Bryn Teg, 2il, £25, Eurig Wyn, Y Frenni, 3ydd, £10, Geoff Daniels, 8 Tŷ Hen.

CLWB 100: Gorffennaf: 1. Mr T.J. Griffiths, Ty'n yr Onnen, 2il, Mr John Huws Roberts, Pant Teg, 3ydd, Mrs K. Hughes, Llys Meredith. Awst: 1af, Mr Haydn Jones, Rhandir Mwyn, 2il, Mr R. Gwynn Davies, Bryn Eithin, 3ydd, Mrs K. Hughes, Llys Meredith.

MERCHED Y WAWR: Cynhelir cyfarfod cyntaf Merched y Wawr nos Iau, Medi 22ain, am 7.15 yn Neuadd yr Eglwys. Bydd y llenor adnabyddus o Fôn, Jane Edwards, yn siarad am ei gwaith.

YR URDD: Bydd tymor yr Urdd yn ailddechrau nos Fercher, Medi 14eg, am 6 o'r gloch yn yr Ysgol. Noson Ymaelodi fydd hon ac mae croeso i bawb sy'n 7 oed cyn y dydd ola o'r flwyddyn ac i fyny i'r flwyddyn gyntaf yn Ysgol Syr Huw Owen.

YR EGLWYS: Cynhelir Noson Gymdeithasol gyda chaneuon gan Dilys ac llid yn Neuadd yr Eglwys nos Wener, Medi 9fed am 7 o'r gloch. Ceir lluniaeth a stondinau, ac fe dynnir y Raffl Fawr. Tâl Mynediad fydd 25c i oedolion a 10c i blant. Croeso cynnes i bawb.

CLWB GWYRFAI: Collwyd dwy aeloda o'r Clwb o fewn wythnos i'w gilydd yn ystod mis Awst sef Miss Powell, Is Eilian, a Miss Rosa Hughes, Tref Eilian. Cynhaliwyd gwasanaeth i'r ddwy yn Eglwys Betws Garmon gyda chynrychiolaeth dda o aelodau'r Clwb. Mae ein cydymdeimlad yn fawr gyda'r ddau deulu. Hefyd eraill o'n haelodau sydd wedi cael profedigaeth.

Ailddechreuir tymor y Clwb ar Hydref 6ed.

MARWOLAETHAU: Er i'r haul fod ar ei orau drwy gydol y gwyliau ac yn galondid i'r rhan fwyaf ohonom, daeth tristwch mawr i ran rhai o deuluoedd y pentref. Yn frawychus o sydyn bu farw Mr Stan Anderson, Bodarfon, ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf tuag at ei wraig Mrs Evelyn Anderson, Jason ei fab, a'r teulu i gyd.

Yn sydyn hefyd bu farw Mr Hugh Williams, Heli, ac mae'n cydymdeimlad yn fawr â'i wraig Mrs Enid Williams, a Iorwerth a Linda.

Cydymdeimlwn â Miss Maude Powell, Miss C.E. Williams, Is Eilian a Mr Gruff Williams, Eilian Terrace, ar golli chwaer annwyl iawn, sef Miss Irene Powell, Is Eilian.

Ar ôl hir gystudd bu farw Miss Rosa Hughes, Tref Eilian, a chydymdeimlwn yn fawr â'i theulu, Mr a Mrs Lyle o Gaernarfon.

Cydymdeimlwn â Mrs M.V. Jones, Hafod y Coed ar golli Mrs Gladys Parry, Frondeg, Caeathro; a hefyd â Mr Bryn Jones, Haulfryn, ar golli tad.

ADREF O'R YSBYTY: Croeso adref i Mrs G. Roberts, 14 Bryn Golau; Mr Roger Dafydd, Glanfa; David a Simon Lewis, Bryn Golau; Mr W.T. Owen, Noddfa, Tref Eilian; Mrs Jones, Benallt; Mr Wynn Jones, Bron Eifion; ac Iwan Ellis, Glyn Awel. Gobeithio eu bônt yn parhau i wella.

DIOLCH: Dymuna Mr Wynn Jones, Bron Eifion ddiolch o galon i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am eu caredigrwydd, y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra'n Ysbyty Môn ac Arfon, ac Ysbyty Eryri. Diolch yn arbennig i'r meddygon teulu, nyrs yr ardal, meddygon a staff Ward Lawfeddygol Uchaf, Bangor a Ward Twrog Ysbyty Eryri.

DIOLCH: Dymuna Mrs Evelyn Anderson a Jason, Bodarfon ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn dilyn eu profedigaeth lem o golli priod a thad annwyl, hefyd am y rhoddion o £220 a dderbyniwyd tuag at y Syrgeri, Waunfawr.

CANOLFAN WAUNFAWR: Bydd y Sioe a gafodd gymaint o ganmoliaeth yn Eisteddfod Llangefni yn perfformio i godi arian dros ymgyrch Canolfan Waunfawr yn Theatr Seilo, nos Wener, 9ed Medi, am 8 o'r gloch. Gofynnir i bawb o'r pentref fynnu eu tocynnau ar frys gan fod galw mawr amdanynt o'r tu allan i'r ardal.

Mae Pwyllgor y Ganolfan hefyd am hysbysu'r ardal mai'r rheswm fod y gwaith adeiladu yn cael ei ddal yn ôl ar y funud yw er mwyn medru hawlio grant ychwanegol posib o £8,000.

DYMUNIADAU GORAU: i Robert Lewis Parry, 4 Eilian Terrace ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ar Awst 2il.

Dymuna ddiolch o galon am y cardiau hardd a'r anrhegion a dderbyniodd ar yr achlysur arbennig hwn.

DYMUNIADAU GORAU: i Dr a Mrs Wood, Pen y Bryn gynt, sydd wedi ymadael i fyw yng nghyffiniau Liphook, Hampshire, ar ôl treulio tua 12 mlynedd yn ein mysg.

LLONGYFARCHIADAU: i Gwenno Grey Lloyd, Bryn Peris a Nerys Thomas, Gilfach ar gyrraedd eu pen-blwydd yn 21 oed.

I John Griffith, Swyddfa'r Post ar ennill Gradd (Anrhydedd Dosbarth 1af) mewn 'Computer System Engineering' yng nghfoleg Warwick. Dymuniadau gorau iddo yn ei swydd newydd yn Basildon.

I Gwyneth Myra Williams, Bryn Celyn ar ennill Gradd gydag Anrhydedd yng ngholeg Caerdydd.

I'r efeilliaid Ian a Neil Johnstone, Tŷ Gwyn ar gyrraedd eu pen-blwydd yn 21 oed.

I Kevin Wyn Jones, Crud yr Awel, ar ei briodas â Bronwen Rees Hughes o Benisarwaun. Maent am gartrefu yn Rhiwlas.

I Mr a Mrs Gwilym John Roberts, Llys Helen ar fod yn daid a nain. Ganwyd mab i Tony a Gwenda.

I Mr a Mrs Chadwick, Tan y Coed, hefyd ar fod yn daid a nain. Ganwyd mab, Daniel Michael, i Chris a Nina.

I Mr a Mrs R. Gwyn Davies, Bryn Eithin ar fod yn daid a nain am eildro. Ganwyd merch fach, Elan, i Sioned a John.

I Malcolm Roberts, 9 Bryn Golau ar ei lwyddiant unwaith eto hefo'i gŵn yn Coventry a Birmingham yn ddiweddar.

I Alun Williams, 13 Bro Waun ar ei lwyddiant yn ennill y wobr gyntaf a medal ar yr Emyn Dôn dros 50 oed. Hefyd cipiodd yr ail wobr am yr unawd arbennig, yn Eisteddfod Gadeiriol Llanddeusant, Ynys Môn.

I Rita Jones, Argraig, Stâd Tŷ Hen ar ei phriodas ag Eric Jones o Ddeiniolen.

I Joanne Tame ar ennill tarian a roddwyd i'r ysgol gan Dr Williams am y Cywaith gorau drwy'r ysgol.

I'r rhai canlynol ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn: Dr Sylvia Prys Jones, 15 Stâd Tŷ Hen, ar gyfieithu drama o'r Llydaweg i'r Gymraeg; Anthony Marston, Blaen y Nant, hefo'r baswn; Dosbarth Arlunio Waunfawr; a Cherddorfa plant yr ysgol.

ARHOLIADAU CERDDOROL: Llongyfarchiadau i'r rhai canlynol ar eu llwyddiant: **Piano:** Gradd 1: Osian Gwynedd, Nant; Wayne Owen, Dol Erddi, Sian Rowlands, Ty'n y Coed. Ail Radd: Euros Wyn, Y Frenni; Helen Wyn Hughes, Tref Eilian, 3ydd Gradd: Karen Roberts, Sŵn y Gwynt. Obo: 5ed Gradd: Joanna Marston, Blaen y Nant (gyda theilyngdod). 'Theory' Gradd 1: Ioan Gwyn Thomas, Treforfan; Nan Wyn, Tan y Fron. Ail Radd: Sian Llwyd, Dol y Coed. 3ydd Gradd: Bethan Pritchard, Min y Grug.

LLONGYFARCHIADAU: i oll blant y pentref sydd wedi llwyddo yn yr arholiadau Lefel O, A a TAU.

CROESO ADREF: Da oedd gweld Nerys Connell a'r plant, Veronica a Gareth, Bron Eifion gynt, adref ar eu gwyliau o Ganada.

YR YSGOL FEITHRIN: Bydd yr Ysgol Feithrin yn ail-agor ar ddydd Llun, Medi 5 am 10 o'r gloch gyda phaned a bisgedi i'r mamau. Mae croeso i unrhyw fam a'i phlentyn sydd ddim yn oed dechrau yn yr Ysgol Feithrin yn awr i ddod yno ar y diwrnod hwn.

Bydd yr Ysgol Feithrin yn dechrau am 9.15 hyd 11.15 o Fedi 6 ymlaen. Os oes unrhyw blentyn o 2-4 oed eisiau dechrau yn yr Ysgol Feithrin cysylltwch â Mrs Bethan Williams, Bryn Meurig neu Mrs Eluned Roberts, Sŵn y Gwynt.

WYTHNOS Y CARNIFAL: Unwaith eto eleni fe gafwyd wythnos lwyddiannus. Fe ddechreuodd y gweithgareddau hefo Gymanfa Ganu yng nghapel Bethel bnawn Sul Mehefin 26 dan ofal Mr Rob Jones gyda phlant y pentref yn cymryd rhan yr organyddes oedd Miss Eirlys Jones, Maelor, hithau oedd yn gyfrifol am hyfforddi'r plant. Y gŵr gwadd oedd Mr Emyr Jones, Caernarfon.

Fe gafwyd seibiant am wythnos cyn i brysurdeb y Carnifal ddechrau o ddifri. Nos Wener Gorffennaf 1 Seremoni Coroni'r Frenhines Felicity yn Neuadd yr Eglwys gan y Frenhines Sandra. Roedd genethod o'r ysgol yn canu i gyfarch y Frenhines – y geiriau gan Mrs Gwenlli Williams.

Nos Lun, Gorffennaf 4 fe gafwyd cystadleuaeth 5-bob-ochr – y pedwar tîm i fynd i'r gêm derfynol ddydd Sadwrn oedd **O dan 15 Whiteways** yn erbyn **Y Chwadogs. Dros 15 Allt Bont** yn erbyn **Buzzbys**. Yr enillwyr o **dan 15 oed** oedd tîm **Whiteways** a **dros 15 oed Buzzbys**. Fe gyflwynwyd medalau i'r chwaraewyr gan y Frenhines Felicity.

Nos Fercher, 6 Gorffennaf fe gafwyd noson o hwyl ar gae'r ysgol. Pan gafwyd gemau Giamocs. Yr enillwyr oedd tîm Y Bont – ac fe gyflwynwyd cwpan i'r capten sef Gary Davies gan y Frenhines. Fe gafwyd diwrnod braf unwaith eto i'r Canrifal ar y dydd Sadwrn. Yn arwain yr orymdaith eleni oedd Majorettes Waunfawr, Frenhines Felicity a'i gosgordd a'r beirniaid Iona ac Andy (Canu Gwlad). Y feirniadaeth fel a ganlyn:

**Gwisg Ffansi**: **Dan 4**: Aled, Iolo, Manon. **Dan 6**: Trystan, Matthew Gavin. **Dan 8**: Meilir, Fflur, Iona. **Dan 11**: Rhys, Telor, Kevin, Osian. **Dan 14:** Sian, Sandra, Karen. **Dros 18**: Rose Ann Hughes, Brian Parry, Margaret Eaglestone. **Dros 50**: Alice Johnstone. **Addurno Beic**: Iolo, Gavin, Ffion. **Grŵp:** 1. Majorettes Pwced a Rhaw. 2. Oliver Twist. **Drol orau:** Y Ganolfan. **Coes Orau:** Olwen Williams, Eira Roberts, Rose Ann Hughes. **Y Gystadleuaeth Fabanod:** Elin Evans, Betws Garmon.

**Y Mabolgampau**: **Ras Genethod: Dan 5:** Kirsty, Gwenno. **Dan 7:** Anwen, Ceryl, Elin. **Dan 11:** Diane, Bethan, Sharon. **Dan 15:** Sian, Debra, Sian Llwyd. **Ras Bechgyn**: **Dan 5:** Andrew, Dylan, Trystan. **Dan 7:** Jason, Meilir, Eilir. **Dan 11**: Dylan, Telor, Neil. **Dan 15**: Adrian, Peter, Euros. **Dros 15:** Adrian, Michael, Keith. **Naid Uchel**: **Dan 7**: Anwen a Jason, Meilir, Geraint. **Genethod 11**: Diane, Lisa, Sharon. **Bechgyn 11:** Telor, Dylan, Neil.

**Enillwyr y raffl**: Planhigyn Tŷ: Grace Williams, 1 Dol Erddi. 2. Ffiol Flodau: Llidiart Wen, Waunfawr. 3. Murlun: Dafydd Huw, Llandegfan. 4. Bocs Nwyddau: Mrs Etchelles, Wrecsam. 5. Potel Sieri: Yvonne Rowlands, Bryn Golau. 6. Potel Win: Tŷ Newydd, Ceunant, Llanrug. 7. Bocs Siocled: Llythyrdy Waunfawr.

Enillydd y Ddraig Goch – rhodd i'r Carnifal gan Mrs Vaughan Jones – oedd Michael Parry, Ffridd Felen. Fe hoffai'r Pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu'n helpu i wneud y Carnifal yn llwyddiannus ac i bawb a fu mor garedig a rhoi rhodd ariannol.

## CARNIFAL Y WAUN



*Brenhines y carnifal — Felicity a'i gosgordd ar lwyfan Neuadd yr Eglwys yn ystod seremoni'r coroni.*


**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**


**CANOLFAN CARPEDI**

**WAUNFAWR**

**AR AGOR**
9-7pm
9-5pm Sadwrn

**AR GAU**
SUL,
MERCHER.

Ffôn 291
(yn ystod oriau agor)



**GWLÂU SENGL O £39 I FYNY**
**GWLÂU DWBL O £75 I FYNY**

**DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES' O £200 i £800**

**LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'**

**5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC – ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?**

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

**Priodas Syr John a Lady Rhys, 1872**

Merch John Davies, Y Rali Waencwm-brwynog, Llanberis oedd Lady Rhys, priod Syr John Rhys, athro yng ngholeg Rhydychen, ac Arolygydd Ysgolion dros ei Mawrhydi. Yr oedd yn fenyw hardd o gorff ac enaid, ddysgedig a hawddgar, fel ei phriod enwog.

Fel hyn yr anfonodd Mr Hugh W. Hughes, Greuor, Bethel hanes y briodas i fy nhad (Herald 4-10-48).

*"Rhys - Davies, Awst 6, 1872 yn Eglwys Blwyfol, Llanberis gan y Parch T.E. Jones, MA, Y Rhyl, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch W.L. Williams, periglor y plwyf, Mr John Rhys, athro yng Ngholeg Rhydychen ac Elizabeth, merch hynaf Mr John Davies, Ty'n-y-Raelgerth (Rali), Llanberis."*

Gwnaeth y beirdd liaws o englynion i gyfarch y ddau.

**Rhys enwog gafodd ryw syniad – nad da**
**Bod heb amddiffyniad:**
**A chofiodd fod dyrchafiad**
**A lles dyn mewn gwell ystâd.**

**Am dalent dyma deulu – na welwyd**
**Yn eilydd yng Nghymru:**
**Urddau a dawn o'r ddau du,**
**Yn didlawd ymgystadlu.**

**IOAN ARFON**

**I'r Wyddfa yn 'r ha aeth Rhys – i weled**
**Hen waliau Llanberis;**
**A chael braint o uchel bris –**
**Moes a defod Miss Davies.**

**Neb arall, ond Llanberis,**
**All wneud gwraig llawn "degrees".**

**OWEN GETHIN JONES**

Symudodd John Davies (tad Lady Rhys) a'r teulu o'r Rali i fyw i Bron Eilian, Llanberis. Chwarelwr galluog ydoedd. Bu farw Tachwedd 2, 1881 yn 68 mlwydd oed.

Er mwyn addasu ei hun i fod yn briod i ŵr o safle Syr John Rhys aeth Elizabeth Davies drosodd i Ffrainc, Yr Almaen a'r Eidal am yr addysg orau. Bu iddynt ddwy ferch ddysgiedig, Myfanwy ac Olwen Rhys.

Ganwyd Syr John Rhys, Mehefin 21, 1840 yn Aber Ceiro Fach, ger Pontarwyd, Sir Aberteifi. Bwthyn bychan oedd ei gartref, a gweithiwr cyffredin oedd ei dad.

Ond yr oedd Mynydd Pumlumon yn agos i'w gartref, a hwyrach i hwnnw greu ryw uchelgais yn er natur yntau yn blentyn. Cafodd yrfa hynod ddisglair fel ysgolor a Phroffesor a Phrifathro. Gwnaeth lawer i Gymru. Cyhoeddodd oddeutu dau ddwsin o lyfrau. Bu farw Rhagfyr 17 1915 a chladdwyd ef wrth ochr ei briod a'i blaenorodd ychydig flynyddoedd ym mynwent Holywell, Rhydychen. Gwnaeth Dyfed gerdd goffa iddo:

**Rhaid oedd ei garu anwylaf ŵr**
**A chariad cryfach na thân a dŵr:**
**Lonned ei bryd â chyfaredd serch,**
**Fwyned ei galon â deigryn merch:**
**Bu fyw'n bendefig dan fawl y byd,**
**Ac arogl y wlad ar ei wisg o hyd:**
**Rhy fawr i rodres, rhy bur i ffug,**
**Mor ddi fursendod â blodau'r grug.**

**DYFED**

**Tair Chwaer a Thri Brawd**

Nid yn aml y clywir sôn am dair chwaer yn priodi tri brawd. Clywch!

Wrth gyfeirio at blant taid a nain Lady Rhys, dywedir mai yn y Rali yr oedd y plant yn fychain. O adnabod John Davies, Hugh Davies, y Pregethwr, Thomas Dafydd a Dafydd Jones nid yw'n naturiol i synied fod yr un o'r plant wedi ei fedyddio gan berson Eglwys Loegr. O'r deuddeg plentyn a anwyd yn Ty'n Ceunant, Waunfawr, daeth pump o'r chwiorydd i Lanberis ar eu priodas – tair yn priod tri brawd.

Miss Sarah Williams, Tŷ Capel, Clegir oedd morwyn Lady Rhys yn Rhydychen, sef merch Evan ac Ann Williams. Yn ddiweddarach daeth Sarah yn wraig i Owen Davies, Clawdd Llwyd, Llanrug.

Yn amser Syr John Rhys y crewyd colegau Cymru. Yr oedd esiau arwyddair iddynt. Cynigiodd ef linell:

"Goreu awen gwirionedd'

Ni faliodd ddim pan ddywedodd Syr John Morris Jones wrtho nad cywir ei chynghanedd, oherwydd nid oedd erioed wedi ymboeni i feistroli cynghanedd. Cynigiodd Syr Edward Annwyl "Ni hena meddwl" sef hen ddihareb. Ond yn y diwedd llinell wallus Rhys a dderbyniwyd.

**Misoedd y Flwyddyn**

**Tri deg niwrnod sydd yn Ebrill**
**A Mehefin, mis y gân,**
**Tri deg hefyd ym mis Medi**
**Ac yn Nhachwedd, mis y tân.**

**Ond yn Chwefror, am dair mlynedd,**
**Y mae dau ddeg wyth bob tro,**
**Ac un waith bob pedair blynedd**
**Dau ddeg naw sydd ynddo fo.**

**Tri deg un sydd ym mis Ionawr**
**Ym mis Mawrth, ac ym mis Mai,**
**A Gorffennaf, Awst a Hydref,**
**A mis Rhagfyr – byth ddim llai.**

**MACHRAETH**
**YNYS MÔN**

Allan o Lyfr 'Cerddi Machraeth' sydd newydd gael ei gyhoeddi gan Wasg Carreg Gwalch, Capel Garmon, Llanrwst (trwy ganiatâd yr awdur)

## BETWS GARMON

NEWID TŶ: Dyna yw hanes teulu Bryn Tegid yn ddiweddar. Pob lwc iddynt yn Cynefin.

LLONGYFARCHIADAU i deulu Ystrad Isaf wedi cael chwaer fach i Michael a David; ac i Michael am guro ei dad yn y Ras Gŵn.

GADAEL YR ARDAL oedd hanes dau deulu i'r Waunfawr, sef teulu Hafodty a Cerrig y Rhyd. Piti yw colli teuluoedd ifainc. Hefyd ymadael i Gaeathro fu hanes teulu Eurika. Pob bendith iddynt oll yn eu cartrefi newydd.

DAMWAIN: Gobeithio fod Caren, Tŷ Coch yn gwella ar ôl damwain yn Ras Gŵn Betws. Mae Mrs Edwards, Minffordd wedi gwella erbyn hyn ar ôl torri ei ffer.

LLONGYFARCHIADAU: i bobl ieuainc yr ardal, Meirion, y Llythyrdy am basio arholiad yn ei waith gyda'r Bwrdd Dŵr; Derry, Castell Cidwm ac Eurig, Cynefin ar basio eu harholiadau lefel 'O' a TAU. Bydd Eurig yn dechrau yng Ngholeg Technegol Bangor i ddilyn cwrs Adeiladwaith. Iolo ei frawd yn dilyn ei gwrs mewn coleg yng Nghaergaint.

NEWID YSGOL fydd hanes Helen, Plas y Nant a Gwyndaf, Ty'n Weirglodd. Hwyl fawr iddynt hwythau hefyd.

## TAN-Y-COED



*Mrs Williams gyda'i gor-wyrion a'i gor-wyresau.*

LLONGYFARCHIADAU a dymuniadau da ardal a chapel Tan-y-coed i Mrs Elizabeth Williams, 2 Tai Minffordd, Llanrug ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed ar Gorffennaf 22. Mrs Williams yw aelod hynaf capel Tan-y-coed.

Priod y diweddar Mr Ellis Llewelyn Williams, Llanberis yw Mrs Williams ac y mae iddi un ferch, Mrs Mary Wyn Morgan, Llanberis, ac un mab, Mr Henry Williams, Caernarfon.

Ar hyn o bryd y mae Mrs Williams, yn aros gyda'i merch yn New Bod Eilian, Llanberis.

Dyma lun Mrs Williams gyda'i gor-wyresau a'i gor-wyrion: Dafydd Meirion a Gwenan plant ei hwyres Linda.

Efeilliaid Andrew a Timothy, plant ei hwyres Bethan a Catrin merch ei hwyres Lilian.

Y mae i Mrs Williams un wyres arall – Rona a briododd yn ddiweddar â'r Parchedig Dewi Lewis Talsarnau.

DIOLCH: Dymuna Mrs Elizabeth Williams, 2 Tai Minffordd, Llanrug ddiolch o galon am yr anrhegion a'r llu cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed.

DYMUNIADAU DA'R ardal i'r plant fydd yn cychwyn cyfnod newydd yn eu hanes, fel disgyblion yn Ysgol Brynrefail: Amlyn Llwyd Evans, Rebeca Ann Hughes, Wyn Parry a Lona Pierce Roberts. Pob hwyl iddynt yn eu hysgol newydd. Hefyd i Garry Wynn sydd wedi gadael Ysgol Brynrefail ac yn chwilio am waith – pob llwyddiant iddo i'r dyfodol.


CROESO ADRE a dymuniadau gorau am wellhad buan i Miss Nance Williams, Cartref fu'n Ysbyty Môn ac Arfon yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Miss Janice Roberts, Tainewyddion ar ei dyweddïad â Mr Raymond Smith. Pob bendith i'r dyfodol i'r pâr ifanc.

A hefyd i Enid Wynne, Llety Llwyd ar ei dyweddïad hithau â Mr Gareth Lloyd, Pwllheli. Pob bendith iddynt hwythau hefyd.

LLONGYFARCHIADAU: i Margaret Roberts, Tainewyddion ar ei llwyddiant yn yr anrholiadau lefel 'A' mewn Bywydeg, Cemeg a Mathemateg. Bydd Margaret yn hwylio i goleg yng Nghaerdydd y mis nesaf. Pob hwyl iddi.


Wrth droed yr Wyddfa . . .




BWYTY FFERM
BRON ERYRI
LLANBERIS Ffôn 870391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

# TROEON TRWSTAN YN Y CAPEL

**Y drydedd a'r olaf o erthyglau Mrs Enid Jones, Talysarn ar hanes Capel y Fachwen**

Wrth wrando ar raglen Rhwng Gŵyl a Gwaith un nos Sul a chlywed un o'r darllenwyr yn dweud ei hanes yn chwerthin yn y capel pan yn blentyn, daeth hyn â llu o atgofion yn ôl i mi – do, bûm innau'n euog o'r drosedd hon lawer tro.

Yn fynych iawn byddai'r pregethwr yn dod i'n tŷ ni i ginio, a gallaf eich sicrhau fod gennyf syniad go dda syt y teimlai Sacceus pan ddywedodd yr Iesu wrtho:

"rhaid i mi heddiw aros yn dy dŷ di."

Cinio 'special', a hynny yn golygu dweud 'gras bwyd' a bod yn ddistaw hyd weddill y ciniawa.

Yn ifanc iawn y deuthum i sylweddoli nad rhywbeth sych-dduwiol oedd gwasanaethau'r Sul, yn wir i'r gwrthwyneb. Ar adegau mae'r lleiaf peth yn destun gwamalwch yn yr adeilad sancteiddiolaf. 'Does ryfedd yn y byd fy mod heddiw yn dioddef o boenau yn fy nghluniau oherwydd sawl gwaith y deuais o'r capel ar ôl oedfa chwithig, yn ddu-las ar ôl cael pinshiad gan mam am chwerthin.

Os byddai pregethwr ac ychydig o 'atal deud' arno – wel, i blentyn dyna sbort heb ei bath, ys truan bach. Byddai gan un arall rhyw ddull arbennig o siarad a phob tro y deuai ar draws gair a'r llythyren 'S' ynddo, byddai rhyw eco mawr yn diasbedain drwy'r capel. Pwff arall o chwerthin – a phinsiad. Ambell i hen frawd yn taro'r dôn o flaen yr organ, wel dyna strach, a lleygwr yn colli tudalen ei bregeth, a'r seibiant llethol tra'n ceisio eu rhoi mewn trefn, yn rhoi mwynhad nid bychan i ni'r plant.

Cofiaf yn dda am y diweddar annwyl Barch R.O. Williams, Cefn-y-Waun yn pregethu un nos Sul – ni allaf gofio ei destun ac ni chofiaf fawr o gynnwys y bregeth, ond gwaeddai allan bob hyn a hyn:

"be 'di d'oed ti, ble 'rwyt ti'n mynd"

er mawr difyrrwch i mi ac un neu ddwy arall. Erbyn heddiw myfyriaf lawer ar y dywediad ac oni ddylai pob un ohonom ofyn i ni ein hunain yr un cwestiwn – "be 'di d'oed ti, ble 'ti'n mynd" – neu'n hytrach beth ydyw dy nod mewn bywyd heddiw? Rhyfedd fel mae ambell i ddywediad yn aros ar y cof ac yn dylanwadu ar fywyd dyn.

y diweddar Barch R.E. Owen yn pregethu a minnau wrth yr organ. Byddai'n arferiad gan bregethwyr yr Hen Gorff yr adeg hynny ddod i lawr o'r pulpud i'r sedd fawr yn ystod canu'r emyn olaf – ac felly y bu'r noson dyngedfennol hon. Lampau paraffin a oleuai gapel Y Fachwen, a'r noson nid oedd un lamp wedi ei chodi yn ddigon uchel ar ôl ei goleuo, a chan fod y pregethwr yn ddyn tal trawodd ei ben yn erbyn y lamp nes oedd y gwydrau yn deilchion wrth ei draed. Chynhyrfodd y gŵr bonheddig ddim, a welwn innau yr un nodyn ar y llyfr tonau gan faint y dagrau a bowliai o'm llygaid. Yr unig beth oedd yn wybyddus i mi oedd fy nhad yn gwgu arnaf o'i gornel yn y sedd fawr. Ni wn p'run ai gwg fy nhad ynteu pinshiad gan mam oedd i'w ofni fwyaf, ond 'doedd mam ddim yn sedd yr organ trwy rhyw drugaredd.

Cennad arall wedi mynd i gymaint o hwyl nes iddo bron golli ei ddannedd gosod dros ochr y pulpud.

Hen flaenor annwyl, yn hyddysg mae'n amlwg yn yr adnod:

"gwylia ar dy droed pan elych i dŷ Dduw"

cerddai i lawr o'r drws i'r Sedd Fawr fel pe bai arno ofn i'w draed gyffwrdd y carped sanctaidd, ond ysywaeth gan mai chwarelwr oedd wrth ei alwedigaeth, unwaith yr wythnos y gwisgai ei esgidiau gorau, nes eu bod yn gwichian dros y lle er mawr fwynhad a hwyl i mi. 'Roedd gan y gŵr hynaws hwn rhyw ddawn arbennig o ddarllen emyn, a rhoi'r pwyslais yn y lle anghywir yn aml – clywaf ef yn awr yn adrodd y llinellau:

"Cawod hyfryd yn y bore
Ac **UN** arall y prynhawn"

Heddwch i'w lwch, os nad oedd y pwysleisio yn y lle iawn, 'roedd ei galon yn y lle iawn beth bynnag.

Myfyriwr ifanc o Bala Bangor yn pregethu ar noson hyfryd yn yr haf a phob man yn dawel ac yntau'n cael hwyl ar weddïo ac yn diolch i'r Bod Mawr am dawelwch yr ardaloedd gwledig a'r mynyddoedd yn eu gwarchod – y funud honno dyna sŵn saethu yn llenwi'r lle – ie, adeg y rhyfel oedd hi, a'r Commandos wedi ailddechrau ymarfer ar lethrau Eryri. Daeth yr Amen heb ei disgwyl, ac yn addas iawn lediodd y myfyriwr ifanc (gwell peidio ei enwi) yr emyn:

"Dyma'r byd y mae tarannau,
Mellt a chynllysg, daear-gryn;
Yn y wlad 'rwy'n myned iddi,
Ni chaf weled yno'r un."

Clywais stori am hen frawd, selog yn y moddion, pan oedd fy nhad yn ifanc yn y capel, a myfyriwr ifanc eto yn pregethu yn y bore. 'Roedd y llanc yn methu'n glir a dirwyn ei bregeth i ben a phan ddaeth yn un ar ddeg o'r gloch a dim sôn am yr amen, cododd yr hen frawd o'i sedd dan y cloc gan afael yn ei het a'i gwadnu hi am y drws, ond cyn mynd trwyddo gwaeddodd yn uchel i bawb ei glywed – "torr hi'n ddwy y tro nesaf, frawd".

Do, cefais lawer o hwyl yn yr hen gapel bach, ond serch hynny carwn feddwl ei fod wedi gadael ei stamp arnaf, a loes i'm calon yw ei weld heddiw odid murddun di-addurn ar ochr y ffordd, ond i mi:

"mae tân ar ei aelwyd o hyd".


**GWASANAETH**

**TRIN GWALLT YN EICH CARTREF**

**Linda**

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd
Ffordd Glanmoelyn
Llanrug
Ffoniwch



**CAERNARFON 3674**

i drefnu amser


# PENISARWAUN

EGLWYS Y SANTES HELEN: Fe garai'r Ficer a'r Wardeiniaid ddiolch i'r rhai canlynol am eu rhoddion tuag at Gronfa'r Fynwent: Mrs J. May Jones, 4 Llys y Gwynt, Mr E. Jones, 3 Bryntirion, Mrs S. Roberts, 13 Rhos Rug, Mrs G. Jones, 18 Bryntirion, Mrs E.B. Jones, 6 Bryntirion, Mrs P. Williams, 3 Llys y Gwynt, Mr T.W. Griffiths, 16 Bryntirion, Mrs J.C. Griffiths, Caernarfon.

Gan fod yr Eglwys yn dathlu ei chanmlwyddiant eleni rydym yn ystyried cael "plât" gyda llun yr Eglwys arno ac fe fyddant yn costio tua £5 yr un. Cyn i'r Ficer yrru archeb i mewn hoffai gael syniad faint o bobl sydd yn awyddus i'w prynu. Cysylltwch â'r Ficer neu'r Wardeiniaid.

CLWB YR HEULWEN: Cafwyd prynhawn difyr yng nghwmni Mrs Nesta Pritchard, Glanafon, Llanrug yn adrodd ei hanes yn Iwerddon. Rhoddwyd y te gan Mrs M. Thomas, Bod Awen a Mrs A. Williams, Meillionydd. Enillodd Mrs M.J. Evans, Bod Idris y Raffl. Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth, Medi 20.

LLONGYFARCHWN Jonathan a Carol Jones, 21 Bryntirion ar enedigaeth mab bach, brawd i Lyn.

DYMUNWN bob hapusrwydd i Kevin a Bronwen ar eu priodas yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Carys W. Williams, Trem Cynfi ar ei dyweddiad gyda John Pritchard, Llanbedr.

CASGLWYD £17.47 tuag at Gartrefi Eithinog. Fe garai Mrs Mathews, Fresh Winds ddiolch i'r rhai oedd yn gyfrifol am y blychau casglu, ynghyd â'r rhai a ofalodd am flychau casglu'r Badau Achub.

CYDYMDEIMLWN â Mrs I. Griffiths, 5 Bryntirion yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yn ddiweddar. Hefyd gyda Mrs A. Jones, Bwthyn Ty'n 'Rardd sydd wedi colli ei mam.

DYMUNWN WELLHAD buan i Mrs E. Roberts, 12 Llys y Gwynt sydd yn Ysbyty Bryn Seiont. Derbyniodd Mrs O. Thomas, Tai Newyddion lawdriniaeth yn Ysbyty Môn ac Arfon yn ddiweddar, a Mrs P. Williams, Llwyn Derw yn Ysbyty'r Bwth Caernarfon. Treuliodd Llion Roberts, 6 Bryn Eglwys gyfnod yn yr Ysbyty a hefyd Mr E. Green, Bron y Waen. Da yw clywed eu bod nhw i gyd adref erbyn hyn. Torrodd Trevor Jones, 6 Bryntirion ei fraich pan fu mewn damwain ar ei feic modur. Yn yr ysbyty hefyd mae Mrs S. Humphries, Y Winllan, Miss Anwen Jones, Meillionydd, Miss Marion Jones, Cae Corniog a Mr Gwynfor Williams, 23 Bryntirion. Gwellhad buan iddynt.

DYMUNA Jean a Llion Roberts, 6 Bryn Eglwys ddiolch i bawb am y llu cardiau, a'r galwadau ffôn, tra yr oeddynt yn yr ysbyty yn ddiweddar.

MARW: Awst 10 bu fawr un o drigolion hynaf yr ardal sef Misiam Thomas, Bwthyn, Ty'n 'Rardd, Waun. Yr oedd yn 94 mlwydd oed. Merch ydoedd i'r diweddar Mr a Mrs David Thomas, Bron y Gaer, sef yr hen Ficerdy yn awr. Treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes yn yr ardal, a hi oedd aelod hynaf Capel y Glasgoed. Hyd yn ddiweddar yr oedd yn byw gyda'i hunig ferch Mrs Arfonia Jones a chymymdeimlir â hi yn ei phrofedigaeth.

DIOLCH: Dymuna Mrs Arfonia Jones ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati yn ei phrofedigaeth o golli ei mam, Miriam Thomas. Diolch yn arbennig i Matron a Staff Plas Pen Gwaith Llanberis a'r meddygon, am eu gofal a'u caredigrwydd tuag at ei mam tra bu yno. Hefyd diolch i Mr Myrddin Pritchard am ofalu am y trefniadau.

PRIODAS: Yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon Gorffennaf 30 priodwyd Bronwen Rees Hughes, 1 Brynhyfryd a Kevin Wyn Jones, Crud yr Awel, Waunfawr. Gweinyddwyd gan y Parch Erfyl Blainey a'r Parch Brynmor Jones. Cyflwynwyd y briodferch i'r priodfab gan ei thad Mr Ron Hughes. Y morynion oedd Anwen Jones, Sioned Roberts, Catrin Rhys Williams a Mali Griffith a'r gwas oedd Richard Ellis Owen. Gareth Blainey oedd yr organydd, gydag Einir Wyn Williams ar y delyn, a Bryn Terfel Jones yn canu dwy unawd. Cynhaliwyd y wledd briodas ym Mhlas Tandinas, Dinas Dinlle. Bydd Kevin a Bronwen yn ymgartrefu yn Bryn Awelon, 56 Caeau Gleision, Rhiwlas.

DIOLCH: Dymuna Kevin a Bronwen Jones ddiolch i'r holl deulu, ffrindiau a chymdogion am y llu anrhegion, cardiau a dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas.

MABOLGAMPAU: Canmlwyddiant Eglwys y Santes Helen – Prynhawn ddydd Mercher, Awst 24 cynhaliwyd mabolgampau a the parti i holl blant y pentref fel rhan o ddathliadau canmlwyddiant yr Eglwys. Dymuna'r Ficer a'r Wardeiniaid ddiolch i'r Brodyr Morris, Gors Bach Cwm-y-glo am fenthyca 'Cae King'; Mr Leslie Larsen am y corn siarad a mân bethau eraill, ac yn olaf i bawb a fu'n cynorthwyo gyda'r bwyd a'r gweithgareddau eraill, ac am y rhoddion hael a dderbyniwyd.


**AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO . . .**




**BWSIAU ARFON**

LLANRUG

**(ERIC MORRIS)**

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

# CROESAIR MEDI




**AR DRAWS:**

1. Haws . . . na gwneud (5)
5. Perthynas (5)
8. Cyffrous neu oerllyd (5)
9. ". . . Rhuddlan" (5)
10. Mae'r gorchymyn yn y garafan (5)
11. Symud i gerddoriaeth (5)
12. Rhif (2)
13. Anrhefn (7)
17. Mae Wyn yn troi yn yr aer (3)
18. Pysgodyn (3)
20. Digwyddiad pwysig ar yr Wyddfa yng Ngorffennaf (3,4)
24. Diod (2)
26. Un yn byw tu allan i'w wlad (5)
27. Celwyddog (5)
28. Gwlad yn Asia (5)
29. Rhywbeth sy'n harddu (5)
30. Gwisgoedd (5)
31. Map (5)

**I LAWR:**

1. Digwyddiad drwg, annisgwyl (7)
2. Myfyrwyr (8)
3. Praidd (6)
4. . . . y gynnen (6)
5. Dymunol (i'w fwyta) (6)
6. Rhwystro (4)
7. ". . . ac ysgall mall a'i medd Mieri lle bu mawredd." (5)
14. Erfyn (3)
15. Draw (3)
16. Gorchymyn i wneud disg! (8)
19. Dogfen yn rhoi hawl neu sicrwydd (7)
21. Llefaru (6)
22. Dyrys (6)
23. Erfin (6)
24. Gwynt . . . y meirw
25. Tywyllwch (4)

Un llythyren yw Ch, Dd, Ff, Ng, Ll, Ph, Rh a Th. Anfonwch eich cynigion at Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug. Bydd £2 o wobr i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.

**Atebion Croesair Gorffennaf:**

**Ar draws:** 1. Cysgu. 5. Absen. 8. Tlawd. 9. Draig. 10. Faint. 11. Oedfa. 12. Efe. 13. Ir. 14. Nadolig. 16. Dwy. 17. Oes. 19. Nodedig. 23. Pa. 24. Yno. 26. Gofer. 27. Amryw. 28. Iliad. 29. Ymlid. 30. Tywydd. 31. Onnen.

**I lawr:** 1. Cydweld. 2. Sgadenyn. 3. Utgorn. 4. Cardod. 5. Adfail. 6. Sain. 7. Natur. 15. Gofynion. 18. Stondin. 20. Digwydd. 21. Dyfalu. 22. Gwrido. 23. Plant. 25. Briw.

Enillydd: **Mrs E.M. Jones, 20 Maes Padarn, Llanberis.**

## TAITH HYDREF MERCHED Y WAWR I DDINASOEDD FENIS A FFLORENS

Y cwmni rhataf, ac un da dros ben, y gallwyd ei gael i fynd â ni yr adeg hon o'r flwyddyn ydyw cwmni CITalia. Yn anffodus nid yw eu 'brochure' yn ymddangos tan ddechrau mis Gorffennaf, ond cafwyd y wybodaeth ganlynol rhag blaen gan Gwmni Teithio Richards, Llanelli. Fel arfer bydd y cwmni yn hedfan o Sul i Sul a'r dyddiadau am y gwyliau fydd Hydref 9-16 o fis Hydref. Byddwn yn treulio 3 noson yn Fenis a 4 yn Fflorens.

Y tâl sylfaenol fydd £260 (yn cynnwys taith mewn awyren o Gatwick i Fenis ac yn ôl, bws o'r maes awyr i'r gwesty (math B), gwely a brecwast, ystafell i ddwy gyda chyfleusterau; taith mewn bws o Fenis i Fflorens, y bws o'r dosbarth cyntaf; bws eto yn ôl o Fflorens i Fenis i ddal yr awyren yn ôl; cymroth cynrychiolwyr y cwmni yn yr Eidal.

Yn ychwanegol at y tâl sylfaenol o £260 rhaid talu treth maes awyr sef £10 ac yswiriant o £8 (mae'r yswiriant hwn yn llawn ac yn gydnabyddedig ar hyd y gwyliau. Os ydyw'r teithiwr dan ofal meddyg rhaid cael tystysgrif oddi wrtho ef ei bod yn iawn iddi deithio.)

Sylwer nad oes hwyrbryd yn y gwesty: mae'n arferol i beidio â chael pryd canol dydd. Ond mae digon o leoedd da yn y ddwy ddinas i gael bwyd.

Bydd yn rhaid, felly, i chwi fynd i Lundain (Gatwick) i ddal yr awyren ond cynigir lleoedd i aros gan y cwmni ar ostyngiad o ddeg y cant.

Os dymunwch ddod a fyddech mor garedig ag anfon at:
Mair Elvet Thomas, Tre Llywelyn, 26 Gerddi Plasturton, Caerdydd CF1 9HF flaendal o £100 cyn gyntedf ag y gellwch. Diolch yn fawr.

## Gŵyl Werin Caernarfon

**Nos Wener, Medi 30:** CAINC A CHLEC – Clwb Rygbi Caernarfon, 8 pm.

Noson yng nghwmni 'Pedwar yn y Bar' (Cilmeri gynt), Arwel Jones ac eraill, yng nghlwb Rygbi Caernarfon. Bar tan 11.00 pm. Mynediad – £1.50 (£1 i aelodau'r timoedd o flaen llaw).

**Bore Sadwrn Hydref 1:** GWEITHDAI DAWNSIO – Ysgol Syr Hugh Owen, 9.30-11.30.

Gweithdai i oedolion, pobl ifanc a phlant ysgolion cynradd yng ngofal hyfforddwyr profiadol. 20c i blant; 50c i oedolion.

**Hanner dydd Hydref 1:** CINIO – Clwb Rygbi Caernarfon 12 o'r gloch.

Darperir cinio ar gyfer y timoedd dawnsio a chyfeillion yng nghlwb Rygbi Caernarfon am £1.50 y pen.

**Prynhawn Sadwrn, Hydref 1:** DAWNSIO AR Y STRYDOEDD: Caernarfon a Bangor.

Ymgynnull ar gyfer yr orymdaith tu allan i Westy'r Royal, Caernarfon am 1.00 pm.

**Nos Sadwrn, Hydref 1:** TWMPATH DAWNS A CHYW IÂR MEWN BASGED.

Yng ngesty'r Royal, Caernarfon am 7.30 pm. Bar tan 11.30 pm. Tocyn £3.

Cynhelir yr Ŵyl gyda chefnogaeth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.


Mae
G. JORDAN
CEFN ELAN
LLANRUG
wedi prynu busnes
ERIC GOVER
LLANBERIS
I fenthyg cymysgwyr concrit, cludo llwythi ysgafn, clirio safleoedd a sbwriel ac am dywod, gro, brics ynghyd â gwaith trydanol fel o'r blaen
Ffoniwch:
CAERNARFON 3581

Awdurdod Datblygu Cymru

A ydych chi mewn busnes?
A ydych chi'n meddwl cychwyn ar eich pen eich hun?

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.
Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.
Mae eich swyddfa leol ym Mangor.
Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychain,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 352606

Welsh Development Agency

# CHWARAEON

## TARIAN 'ECO'R WYDDFA'



*Yn dilyn cystadlu brwd ar gae Ysgol Gynradd Llanrug, y ddau dîm a ymddangosodd yn y gêm derfynol yng nghystadleuaeth Tarian yr Eco i dimau 5-bob-ochr oedran cynradd oedd Bethel (rhes gefn) ac Adran yr Urdd, y Waunfawr (rhes flaen). Wedi gêm gyffrous yn llawn digwyddiadau, Bethel a orfu, ond mae tîm ieuanc y Waunfawr yn haeddu pob canmoliaeth am chwarae pêl-droed aeddfed iawn o gofio'u hoedran.*

## CHWARAEON PENISARWAUN

Yn ystod wythnos garnifal Penisarwaun cynhaliwyd nifer o gemau i bob oed a rhyw. Isod gwelir y timau yn y gêm bêl-droed i fechgyn.






*Timau rownderi — genethod Penistarwaun.*



*Bryntirion United — tîm merched buddugol — gyda'u hyfforddwr a'u mascot ar y chwith yn y cefn.*



*Cychwyn Ras Fawr y Flwyddyn — i gopa'r Wyddfa — ar un o ddyddiau poethaf yr haf. Dros 300 o redwyr.*



*Paul Prytherch (chwith) a enillodd y Ras i rai dan 13 oed a thorri'r record — yr unig record i'w thorri yn ystod y dydd. Dilynodd ei lwyddiant gyda llawer o wobrau cyntaf mewn rasus lleol eraill yn ystod yr haf — Moel Tryfan a Mynydd Llandegai.*

*Mae Rhedwyr Eryri bellach yn edrych ymlaen am ddwy ras arall i'w cynnal yn ystod mis Medi — sef hanner marathon Caernarfon a Ras Moel Eilio. Mae'r rhedwyr hŷn hefyd yn paratoi ar gyfer Ras Farathon Eryri a gynhelir ym mis Hydref.*

## TÎM DARTIAU 'Y TARW' DEINIOLEN



*Daeth tîm 'Y Tarw' yn ail mewn cystadleuaeth ddartiau yn Llanberis yn ddiweddar. Enillwyr y gystadleuaeth oedd Padarn Lake. Daeth Kevin Jones yn gystadleuydd unigol gorau (rhes gefn ail o'r chwith).*

## TÎM PÊL-DROED DEINIOLEN



*Aelodau o dîm pêl-droed Deiniolen a fu ar daith noddedig mewn gwisg ffansi i godi arian i'r Clwb. Mwy o hanes Deiniolen a thimau eraill yr ardal yn y rhifyn nesaf.*